Y Comisiwn Etholiadol

Adroddiad ar etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Mai 2011

Hydref 2011

Y Comisiwn Etholiadol
3 Bunhill Row
London EC1Y 8YZ

Ffôn 020 7271 0500
Ffacs 020 7271 0505
info@electoralcommission.org.uk
www.electoralcommission.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn 029 2034 6800
Ffacs 029 2034 6805
gwybodaeth@comisiwnetholioadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth ynghylch cael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu ar ffurf fersiwn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2011

Rydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hyggededd y broses ddemocrataidd a hyder y cyhoedd ynddi. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer etholiadau a gynhelir yn dda.

Mae democratiaeth yn cyfrif

Cynnwys

	Rhagair	1
	Crynodeb	2
1	Cyflwyniad	8
2	Profiad pleidleiswyr	13
3	Materion allweddol	26
4	Ymgyrchu yn yr etholiad	40
5	Darparu'r etholiad	46
	Atodiadau	
	Atodiad A – Methodoleg yr ymchwil	57
	Atodiad B – Amseroedd cyfrif pleidleisiau'r etholiad	59

Rhagair

Gofynnwyd i bobl Cymru bleidleisio mewn tri digwyddiad etholiadol yn ystod 2011: refferendwm Cymru ar 3 Mawrth; etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai a refferendwm y DU a gynhaliwyd ar 5 Mai hefyd. Mae'r adroddiad hwn yn datgan sut cafodd etholiad y Cynulliad ei gynnal. Mae hefyd yn adolygu effaith cyfuno'r etholiad â refferendwm y DU.

Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar brofiad y pleidleiswyr, gan ddefnyddio gwaith ymchwil barn y cyhoedd a data ymchwil arall i ystyried profiad pobl o gofrestru i bleidleisio; yr wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd am yr etholiad, a phrofiad pobl o bleidleisio naill ai mewn gorsafoedd pleidleisio neu drwy'r post.

Rydym yn adolygu dau fater allweddol a ddaeth yn newyddion am yr etholiad ei hun. Y cyntaf o'r rhain oedd amseru cyfrif pleidleisiau'r etholiad, ar ôl iddi ddod yn amlwg y byddai rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru yn cyfri'r pleidleisiau'r diwrnod canlynol ar ôl y cyfnod pleidleisio yn hytrach na dros nos. Rydym yn adrodd ar y mater hwn a'r camau rydym yn eu cymryd i geisio osgoi dadleuon tebyg cyn unrhyw etholiadau eraill.

Cododd yr ail fater bythefnos ar ôl yr etholiad, pan ddaeth i'r amlwg nad oedd dau ymgeisydd a oedd wedi cael eu hethol yn Aelodau Cynulliad wedi bod yn ymwybodol nad oeddent yn gymwys i sefyll i'w hethol oherwydd swyddi oedd ganddynt. Daeth gweithredoedd y Comisiwn ei hun dan lach y cyhoedd yn sgil camgymeriad yn fersiwn Cymraeg ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac i asiantau. Aethom ati i gyhoeddi ymddiheuriad cyhoeddus ac rydym wedi diwygio ein prosesau i sicrhau na fydd yr un peth byth yn digwydd eto. Mae ein hadroddiad yn edrych ar y mater hwn yn fanwl.

Roedd cynnal tri digwyddiad pleidleisio mawr yng Nghymru o fewn dau fis yn her i'r rheini a oedd yn eu gweinyddu. Roedd hyn yn golygu ei bod yn rhaid iddynt gynllunio a pharatoi ar gyfer y digwyddiadau pleidleisio ym mis Mai ar yr un pryd â chynnal y refferendwm ym mis Mawrth. Serch hynny, cafodd etholiad y Cynulliad a'r ddau refferendwm eu gweinyddu'n dda gan y Swyddogion Canlyniadau a'u staff. Roedd cydlynu gwell a chysondeb gwell yn y prosesau etholiadol ar draws Cymru wedi golygu bod pethau wedi gwella i bleidleiswyr. Er enghraifft, cafodd cardiau pleidleisio, pecynnau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio eu cynhyrchu mewn fformatau gwell a oedd yn fwy hygyrch ac yn haws eu darllen. Mae ein hadroddiad yn cynnwys rhagor o fanylion am yr holl faterion hyn.

Ar ran y Comisiwn, carwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi gwybodaeth i ni a'n helpu ni i greu'r adroddiad hwn, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol, pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a phleidleiswyr yng Nghymru.

Ian Kelsall
Comisiynydd Etholiadol

Crynodeb

Am yr adroddiad a'n rôl

Mae'n hadroddiad yn edrych ar sut cafodd etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd ar 5 Mai 2011, ei weinyddu. Mae'n tynnu sylw at faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg ac at brofiadau pleidleiswyr o'r etholiad, ac yn cyflwyno sylwadau ar hynny. Mae hefyd yn adolygu effaith cyfuno'r etholiad â'r refferendwm ar system bleidleisio Seneddol y DU.

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn pennu'r safonau ar gyfer cofrestru etholiadol a chynnal etholiadau yn dda. Rydym yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiadau ar weinyddu etholiadau a refferenda.

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi adroddiad ar refferendwm y DU, a gynhaliwyd yr un diwrnod ag etholiadau'r Cynulliad, ar y system bleidleisio a ddefnyddir i ethol Aelodau Seneddol. Mae'r adroddiad hwnnw'n cynnwys asesiad o effaith cyfuno'r refferendwm ag etholiadau a drefnwyd ar draws y DU ac argymhellion i Lywodraeth y DU yn ymwneud â chynnal refferenda ac etholiadau.

Ffeithiau a ffigurau

Mae'n hadroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar brofiad y pleidleiswyr, ar sail gwaith ymchwil barn y cyhoedd a data ymchwil arall. Roedd 2,289,735 o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio yng Nghymru a phleidleisiodd 41.8% ohonynt. Gofynnodd 17% o'r etholwyr am bleidlais bost a defnyddiodd cyfran uchel o'r rheini, 71%, eu pleidlais bost. Roedd pleidleisiau post yn cyfrif am 28% o'r holl bleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad. Mae'n hadroddiad yn adolygu profiad pobl o bleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio neu drwy'r post.

Ymgyrchodd 176 o ymgeiswyr etholaethol i gael eu hethol ac roedd 13 o bleidiau gwleidyddol wedi enwebu rhestri o ymgeiswyr rhanbarthol. Roedd hyn 21 yn llai o ymgeiswyr etholaethol a thri yn llai o bleidiau gwleidyddol nag yn etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Mae'n hadroddiad yn rhoi mwy o fanylion am ymgyrchu yn yr etholiad.

Oedd pobl yn teimlo'n wybodus?

Gwnaethom gynnal ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus i godi ymwybyddiaeth pobl o etholiadau'r Cynulliad a refferendwm y DU. Anfonwyd llyfryn gwybodaeth i bob cartref yng Nghymru a defnyddiwyd hysbysebion ar deledu, ar radio ac ar-lein i roi gwybod i bobl am yr etholiadau. Gwnaethom werthuso lefelau

ymwybyddiaeth pobl drwy gynnal ymchwil barn y cyhoedd cyn ac ar ôl ein hymgyrch. O'r rheini a holwyd, roedd 78% yn adnabod o leiaf un elfen o'n hymgyrch. Ar ôl y diwrnod pleidleisio, pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn ymwybodol o etholiadau'r Cynulliad, dywedodd 82% o'r bobl eu bod yn ymwybodol ohonynt.

Dywedodd saith o bob 10 a holwyd fod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i bleidleisio yn yr etholiad. Roedd 79% o'r rheini a oedd yn 55 oed a hŷn yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth, o'i gymharu â 60% o'r rhai a oedd dan 35.

O ran pobl yn teimlo'n wybodus, mae sylw yn y cyfryngau i etholiadau'r Cynulliad yn dal yn destun dadlau. Wrth edrych ar safbwyntiau pobl am lefel y sylw a roddwyd i'r etholiadau yn y cyfryngau, roedd ein gwaith ymchwil barn y cyhoedd wedi canfod bod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd dros hanner y bobl a holwyd yng Nghymru yn meddwl bod llawer o sylw yn y cyfryngau i etholiad y Cynulliad, tra roedd 72% o'r bobl a holwyd yn yr Alban a 70% yng Ngogledd Iwerddon yn meddwl bod llawer o sylw yn y cyfryngau i'r etholiadau a oedd yn cael eu cynnal yno.

Profiad pobl o bleidleisio

Mae pobl yng Nghymru'n dal yn fodlon iawn â'r broses o bleidleisio. Dywedodd 97% o'r rhai a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio eu bod yn fodlon â'r broses o bleidleisio ac roedd 98% o'r rheini a bleidleisiodd drwy'r post yn fodlon. Mae manylion llawn am ganfyddiadau'n gwaith ymchwil i'w gweld yn yr adroddiad.

Un o flaenoriaethau allweddol y Comisiwn yw bod pleidleiswyr yn gallu pleidleisio yn rhwydd ac yn hyderus, gan wybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd. Roedd papurau pleidleisio etholiad y Cynulliad, a gafodd eu rhagnodi mewn deddfwriaeth gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, wedi cael eu dylunio yn ôl ein canllawiau ymarfer da ar hygyrchedd. Mewn ymchwil barn y cyhoedd, dywedodd bron bob un o'r pleidleiswyr (96%) bod eu papurau pleidleisio yn hawdd eu llenwi. O'r rheini a oedd wedi pleidleisio yn etholiad y Cynulliad ac yn refferendwm y DU a gynhaliwyd yr un diwrnod, sy'n golygu eu bod wedi llenwi tri phapur pleidleisio, dywedodd 96% ei bod yn hawdd llenwi mwy nag un papur pleidleisio.

Gwersi a ddysgwyd: beth ddylai newid

Amseru cyfrif pleidleisiau

Daeth amseru cyfrif pleidleisiau etholiad y Cynulliad yn fater dadleuol yn niwedd mis Mawrth, ar ôl i'r cyhoedd ddod i wybod bod Swyddogion Cyfrif yn rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru wedi penderfynu cyfri'r pleidleisiau y diwrnod ar ôl y cyfnod pleidleisio yn hytrach na dros nos. Mae'n hadroddiad yn egluro'r cefndir ac yn adolygu'r mater, yn ogystal â chynnwys data ynglŷn â pha bryd y cyhoeddwyd canlyniadau ar gyfer pob etholaeth a rhanbarth etholiadol.

Erbyn diwedd Tachwedd 2011, byddwn yn dosbarthu Papur Materion am amser cyfrif pleidleisiau etholiadau, gan nodi'r materion sydd wedi codi mewn etholiadau ledled y DU yn ddiweddar. Byddwn yn gofyn am farn pobl sydd â diddordeb yn amseru cyfrif yr etholiad, gan gynnwys llywodraethau, pleidiau gwleidyddol, Swyddogion Canlyniadau, darlledwyr a phleidleiswyr.

Yn dilyn dadansoddiad o'r sylwadau a gafwyd, byddwn yn ceisio gwneud argymhellion yn gynnar yn 2012 ar amseru cyfrif pleidleisiau etholiad a sut cânt eu trefnu, gan ystyried y math o etholiadau ac amrywiaeth o amgylchiadau perthnasol.

Gwahardd dau ymgeisydd a etholwyd

Bythefnos ar ôl yr etholiad, cododd mater o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd. Nid oedd dau ymgeisydd a etholwyd yn Aelodau Cynulliad wedi ei hethol yn ddilys oherwydd swyddi a oedd ganddynt, a oedd yn golygu eu bod wedi'u gwahardd. Daeth hyn yn destun ymchwiliad gan yr heddlu ac, ar ôl i Wasanaeth Erlyn y Goron ddod i'r casgliad nad oedd troseddau wedi eu cyflawni, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Daeth gweithredoedd y Comisiwn ei hun dan lach y cyhoedd yn sgil camgymeriad yn fersiwn Cymraeg ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac i asiantau, a oedd yn berthnasol yn un o'r achosion. Gwnaethom ymddiheuro i'r Cynulliad ac i'r sawl a oedd dan sylw. Mae ein hadroddiad yn rhoi sylw manwl i'r mater hwn.

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers y digwyddiad hwn ac rydym yn falch o weithredu cyfres o argymhellion a wnaethant ar ein cyfer ym mis Medi 2011. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ein prosesau ar gyfer delio â dogfennau a chyfarwyddyd yn Gymraeg, er mwyn osgoi unrhyw anawsterau yn y dyfodol. Yn benodol, rydym wedi mynd ati'n drwyadl i ddiwygio ein prosesau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar-lein ar ein gwefan.

Papur pleidleisio rhanbarthol

Roedd fformat y papur pleidleisio rhanbarthol wedi cael ei ddiwygio ar gyfer etholiad 2011, er mwyn iddo gynnwys enwau'r pleidiau gwleidyddol a oedd wedi enwebu ymgeiswyr, ynghyd ag unrhyw ymgeiswyr rhanbarthol annibynnol a oedd yn sefyll, ond nid enwau ymgeiswyr rhanbarthol y pleidiau. Serch hynny,

roedd yn rhaid arddangos enwau'r ymgeiswyr yn y gorsafoedd pleidleisio er mwyn i bleidleiswyr allu eu gweld.

Yn gynnar ar y diwrnod pleidleisio, cafwyd cwynion nad oedd enwau ymgeiswyr rhanbarthol wedi cael eu harddangos neu nad oeddent wedi cael eu harddangos yn ddigon clir gan rai Swyddogion Canlyniadau. Roedd nifer bach o bleidleiswyr drwy'r post wedi cwyno hefyd mai'r unig ffordd iddynt allu cael gafael ar enwau ymgeiswyr y rhestr ranbarthol oedd drwy edrych ar hysbysiadau mewn mannau cyhoeddus neu ar wefannau awdurdodau lleol. Mae'n hadroddiad yn egluro'r cefndir a'r camau a gymerwyd ar y diwrnod pleidleisio i ddatrys y mater hwn.

Yn dilyn y profiad yn yr etholiadau, daethom i'r casgliad y dylid ailystyried a ddylid cynnwys enwau ymgeiswyr ar y papur pleidleisio rhanbarthol ai peidio. Serch hynny, nes caiff materion perthnasol penodol eu datrys (materion sy'n cael eu hegluro yn ein hadroddiad), byddai'n rhy gynnar penderfynu ar y papur pleidleisio rhanbarthol. Byddwn yn ailedrych ar y mater hwn cyn mis Rhagfyr 2014 ar yr hwyraf. Byddwn yn gofyn am ragor o safbwyntiau ac yn cyflwyno unrhyw argymhellion angenrheidiol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn da bryd i gael penderfyniad o leiaf flwyddyn cyn etholiad y Cynulliad yn 2016. Byddai hynny'n rhoi o leiaf chwe mis cyn etholiad 2016 ar gyfer rhagnodi unrhyw newid i'r papur pleidleisio mewn deddfwriaeth.

Pleidleisiau post annilys

Fel sydd wedi bod yn digwydd mewn etholiadau blaenorol, bu'n rhaid gwrthod ychydig dan 5% o'r pleidleisiau post a ddychwelwyd gan fod y Swyddogion Canlyniadau wedi datgan eu bod yn annilys, am un o'r rhesymau a ganlyn: roedd y datganiad pleidleisio drwy'r post y mae'n rhaid ei anfon gyda'r papur pleidleisio ar goll; roedd y papur pleidleisio ar goll; neu ni ellid cyfateb y llofnod neu'r dyddiad geni a roddwyd gan bleidleiswyr drwy'r post â'u cais am bleidlais bost. Mae'n hadroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth a data am bleidleisiau post annilys.

Byddai caniatáu i Swyddogion Canlyniadau ofyn am lofnod wedi'i adnewyddu, a hefyd rhoi adborth i etholwyr os cafodd eu pleidlais ei gwrthod, yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

Gwnaethom yr argymhelliad hwn i Lywodraeth y DU yn wreiddiol yn 2007 ac rydym wedi ei ailadrodd ers hynny. Ym Medi 2011, dywedodd Llywodraeth y DU y byddai'n gweithio gyda'r Comisiwn a gweinyddwyr etholiadol i nodi sut i osgoi'r problemau yr ydym wedi eu hamlygu gyda'r system pleidleisio drwy'r post bresennol, gan ystyried yr angen i sicrhau ei bod yn dal yn ddiogel yn erbyn ceisiadau twyllodrus am bleidleisiau post.

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU er mwyn sicrhau bod y newidiadau priodol yn cael eu gwneud erbyn etholiad cyffredinol Seneddol nesaf y DU.

Casglu pleidleisiau post

Mae un rhan o sicrhau bod pob pleidlais bost yn cael ei chyfrif yn golygu sicrhau bod yr holl bleidleisiau post yn cael eu casglu o ganolfannau post erbyn i'r cyfnod pleidleisio gau. Bydd Swyddogion Canlyniadau unigol yn gyfrifol am drefnu a thalu am ymgyrchoedd 'ysgubo' y Post Brenhinol, lle mae unrhyw bleidleisiau post sydd ar ôl yn cael eu casglu o ganolfannau post er mwyn iddynt gael eu cynnwys yng nghyfrif yr etholiad.

Ym mis Mai 2011, dechreuodd y Comisiwn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros drefnu a thalu cost yr 'ysgubo' mewn perthynas â refferendwm y DU. Danfonodd y Post Brenhinol bob pleidlais bost a oedd yn deillio o'r ysgubo yn uniongyrchol i ardaloedd cyfrif y refferendwm, yn hytrach na bod yn rhaid i Swyddogion Cyfrif eu casglu. Roedd hyn yn golygu bod pob Swyddog Canlyniadau'n defnyddio'r un gwasanaeth ar gyfer etholiad y Cynulliad.

At ei gilydd mae'r adborth gan Swyddogion Cyfrif y refferendwm a Swyddogion Canlyniadau'r etholiad am yr ysgubo wedi bod yn gadarnhaol, ond mae amheuaeth o hyd ynghylch ei werth, gyda dim ond nifer fach o bleidleisiau post yn cael eu dychwelyd yn ei sgil.

Ein nod yw datblygu model gweithio gwell gyda'r gwasanaeth post.

Ymgyrchu yn yr etholiad

Roedd Swyddogion Canlyniadau wedi cynnig a chynnal cyfarfodydd briffio gydag ymgeiswyr ac asiantau i ddatrys unrhyw anawsterau cyn enwebu, ac roedd cynrychiolwyr o'r heddlu hefyd yn bresennol yn aml i gynghori ar faterion sy'n ymwneud â hygrededd etholiadol. Serch hynny, mae Swyddogion Canlyniadau a'r heddlu wedi dweud wrthym nad oedd llawer yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn, ac ambell waith roedd mwy o staff yr etholiad a swyddogion yr heddlu yn y cyfarfodydd nag ymgeiswyr ac asiantau, neu roedd cyfarfodydd yn cael eu canslo.

Rydym yn dal i annog ymgeiswyr, asiantau a phleidiau i fynychu cyfarfodydd briffio a gynigir gan Swyddogion Canlyniadau i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am y broses enwebu a gofynion y gyfraith.

Byddwn yn mynd ati gyda Swyddogion Canlyniadau a phleidiau gwleidyddol i ystyried beth arall ellid ei wneud i wella presenoldeb mewn sesiynau briffio lleol ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau.

Roedd fformat newydd ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac asiantau'n cael ei groesawu yn yr adborth a gawsom, ond roedd swyddogion pleidiau sy'n delio â materion cydymffurfio yn teimlo y byddent yn hoffi cael un gyfrol gynhwysfawr a fyddai'n cynnwys ein holl gyfarwyddyd, gyda chyfeiriadau deddfwriaethol.

Byddwn yn ystyried sut gallwn ateb y cais hwnnw ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

Cawsom adborth gan bleidiau gwleidyddol penodol a rhai ymgeiswyr a ddywedodd nad oeddent yn siŵr a allai eu taflenni etholiadol, a oedd yn cael eu danfon dan drefniadau rhadbost gyda'r Post Brenhinol, gynnwys negeseuon yn galw ar bobl i bleidleisio dros ymgeiswyr plaid yn yr etholiad etholaethol ac yn yr etholiad rhanbarthol.

Rydym wedi cyfeirio'r materion hyn at y Post Brenhinol, sydd wedi cytuno i edrych ar ei gyfarwyddyd eto. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn gyda'r Post Brenhinol ac yn ceisio sicrhau yr ymgynghorir â'r pleidiau yng Nghymru ynghylch unrhyw ddiwygiadau i'r cyfarwyddyd mewn da bryd cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016.

Ein deunyddiau a'n hadnoddau i Swyddogion Canlyniadau

Cawsom adborth cadarnhaol gan Swyddogion Canlyniadau am y deunyddiau a'r adnoddau ac am y gefnogaeth uniongyrchol a ddarparwyd iddynt, ond roedd yna adborth negyddol hefyd. Roedd rhai'n teimlo bod y Comisiwn wedi 'micro-reoli' refferendwm y DU, a bod hynny wedi effeithio ar elfennau cyfun yr etholiad.

Cawsom rywfaint o adborth negyddol ynglŷn â materion cyflwyno hefyd, gyda rhai gweinyddwyr etholiadol yn dweud eu bod yn teimlo ei bod yn anodd dod o hyd i'w ffordd o amgylch ein gwefan, ac y byddai wedi bod yn well ganddynt weld y cyfarwyddyd mewn un gyfrol wedi'i hargraffu a pheidio â derbyn deunydd diweddaru dros yr e-bost, rhag ofn iddynt fynd ar goll.

Rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom ynglŷn â chynllunio ein cyfarwyddyd a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau 2012 a sut rydym yn cyflwyno'r wybodaeth honno ar ein gwefan.

Costau'r etholiad

Mae'n hadroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â faint oedd cost yr etholiad. Mae Llywodraeth Cymru'n talu costau'r Swyddogion Canlyniadau lleol sy'n darparu'r etholiad. Er nad yw'r union gostau a gafodd y Swyddogion Canlyniadau yn hysbys eto, gan fod Llywodraeth Cymru wedi pennu 5 Ionawr 2012 fel y dyddiad cau er mwyn cyflwyno cyfrifon, y swm uchaf y mae modd ei adennill ar gyfer y 40 etholaeth a'r 5 rhanbarth etholiadol yw £4.7 miliwn. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi talu costau'r Post Brenhinol, bron i £3.4 miliwn, am ddanfon dros 16.5 miliwn o ddarnau o ohebiaeth etholiadol gan ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.

1 Cyflwyniad

Ein hadroddiad

1.1 Cynhaliwyd etholiad cyffredinol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 5 Mai 2011. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar sut cafodd yr etholiad hwnnw ei weinyddu. Mae'n tynnu sylw at faterion allweddol a ddaeth i'r amlwg ac at brofiadau pleidleiswyr o'r etholiad ac yn cyflwyno sylwadau ar hynny.

1.2 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gorff annibynnol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y DU. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau ac yn pennu'r safonau ar gyfer cofrestru etholiadol a chynnal etholiadau yn dda. Rydym yn gyfrifol am gyhoeddi adroddiadau ar weinyddu etholiadau a refferenda.

1.3 Cafodd yr etholiad ar 5 Mai ei gyfuno â refferendwm a gynhaliwyd ar draws y DU ar system bleidleisio Seneddol y DU. Cafodd etholiadau i Senedd yr Alban ac i Gynulliad Gogledd Iwerddon, ac etholiadau llywodraeth leol mewn rhannau o Loegr ac ar draws Gogledd Iwerddon hefyd eu cynnal ar y diwrnod hwn.

1.4 Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ar wahân ar yr etholiadau a gynhaliwyd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac ar y refferendwm yn y DU. Bydd yr adroddiadau hynny hefyd yn cynnwys asesiad o effaith cyfuno'r refferendwm ag etholiadau a drefnwyd ar draws y DU.

1.5 Ym mis Gorffennaf 2011, roeddem wedi cyhoeddi ein hadroddiad ar y refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011. Pan fo'n berthnasol dysgu gwersi o'r ddau refferendwm, mae'r adroddiad ar y refferendwm a gynhaliwyd ledled y DU hefyd yn delio â rhai materion o'r refferendwm a gynhaliwyd yng Nghymru.

1.6 Gwnaethom hefyd gyhoeddi manylion ar wahân ynghylch gwariant ymgyrchoedd yr ymgeiswyr etholiadol a'r pleidiau gwleidyddol a oedd yn ymladd yn etholiadau'r Cynulliad. Roeddem wedi cyhoeddi'r manylion hyn ar ôl y dyddiadau cau perthnasol y mae'n rhaid i ymgeiswyr a phleidiau gydymffurfio â nhw ar gyfer eu ffurflenni statudol.

1.7 Mae Atodiad A yn cynnwys manylion y ffynonellau a ddefnyddiwyd i gyfrannu at yr adroddiad hwn a'r fethodoleg ymchwil a ddefnyddiwyd gennym.

Etholiad cyffredinol cyntaf y Cynulliad

1.8 Caiff etholiadau'r Cynulliad eu cynnal ar sail cyfnod sefydlog bob pedair blynedd. Cafodd etholiadau cyntaf y Cynulliad eu cynnal ym mis Mai 1999 (ar yr un pryd ag etholiadau lleol), a chynhaliwyd yr etholiadau dilynol yn 2003 ac yn

2007. Roeddem wedi cyflwyno adroddiadau ar etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2003 ac yn 2007.[1]

1.9 Dyma oedd yr etholiad cyntaf i gael yr enw ffurfiol 'etholiad cyffredinol' y Cynulliad yn dilyn newid yn y gyfraith a gyflwynwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[2] Ceir darpariaeth hefyd ar gyfer cynnal etholiad cyffredinol arbennig os bydd mwyafrif o ddwy ran o dair o'r Cynulliad yn penderfynu y dylid ei ddiddymu.[3]

1.10 Defnyddir y system aelod ychwanegol i ethol Aelodau Cynulliad. Caiff pedwar deg o Aelodau Cynulliad eu hethol mewn etholaethau, gan ddefnyddio'r system cyntaf i'r felin. Caiff dau ddeg o Aelodau Cynulliad eu hethol gan ddefnyddio'r system rhestr plaid wleidyddol a chaiff ymgeiswyr rhanbarthol annibynnol hefyd sefyll i gael eu hethol. Ceir pum rhanbarth etholiadol, a chaiff pedwar Aelod Cynulliad rhanbarthol eu hethol ym mhob un ohonynt. Bydd seddi rhanbarthol yn cael eu dyrannu yn ôl fformiwla fathemategol. Bydd cyfanswm nifer y pleidleisiau i blaid mewn rhanbarth yn cael ei rannu â nifer y seddi etholaethol a enillwyd gan y blaid yn y rhanbarth hwnnw, ac un. Mae hyn yn golygu bod modd i'r cyfrifiad gynnwys y pleidiau hynny nad ydynt wedi ennill unrhyw seddi etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol annibynnol.

1.11 Mae'r system etholiadol yn golygu bod gan bleidleiswyr ddwy bleidlais yn etholiad y Cynulliad, ac mae pob un ar bapur pleidleisio ar wahân. I bleidleisio mewn etholiad etholaeth, bydd pleidleiswyr yn rhoi croes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un ymgeisydd. I bleidleisio mewn etholiad rhanbarthol, bydd pleidleiswyr yn rhoi croes (X) yn y blwch gyferbyn ag enw un blaid wleidyddol neu ymgeisydd rhanbarthol annibynnol.

Golwg gyffredinol

1.12 Roedd cyfuno'r etholiad â refferendwm y DU ar 5 Mai, ynghyd â'r ffaith bod hyn yn dilyn refferendwm a gynhaliwyd ledled Cymru ar 3 Mawrth, yn golygu cyfnod dyrys i Swyddogion Canlyniadau a'u staff. Cafwyd cyfnod dwys o gynllunio a pharatoi ar gyfer y tri digwyddiad pleidleisio; roedd yn rhaid cynllunio ar gyfer y pleidleisio ym mis Mai tua'r un adeg â darparu refferendwm mis Mawrth ac nid oedd amser i staff bwyso a mesur materion cyn ei bod yn rhaid agor i dderbyn enwebiadau ar gyfer etholiad y Cynulliad gwta dair wythnos ar ôl refferendwm mis Mawrth.

1.13 Er gwaethaf y sialensiau hyn, cafodd yr etholiad, ynghyd â'r holl bleidleisio a gynhaliwyd yng Nghymru yn ystod 2011, eu gweinyddu'n dda gan y Swyddogion Canlyniadau a'u staff. Cafodd mwy o gydlynu a chysondeb ei gyflawni ar draws Cymru nag erioed o'r blaen, gan adeiladu ar welliannau o un flwyddyn i'r llall.

---

[1] Y Comisiwn Etholiadol, *Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007 (2007), Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2003* (2003).
[2] Adran 3.
[3] Adran 4.

Roedd hyn yn golygu bod dogfennau ar gyfer pleidleiswyr, megis cardiau pleidleisio, pecynnau pleidleisio drwy'r post a phapurau pleidleisio, wedi cael eu cynhyrchu yn fwy cyson mewn fformatau hawdd eu defnyddio a fformatau mwy hygyrch. Gallai ymgeiswyr ac asiantau ddisgwyl lefel debyg o wasanaeth gan Swyddogion Canlyniadau a'u staff ble bynnag roeddent yn sefyll i'w hethol yng Nghymru. Mae ein hadroddiad yn rhoi mwy o fanylion am brofiad pleidleiswyr; ymgyrchu yn yr etholiad a darparu'r etholiad. Rydym yn tynnu sylw at un mater penodol y mae angen edrych arno drachefn sef a ddylai papur pleidleisio'r rhestr ranbarthol gynnwys enwau'r ymgeiswyr a enwebir gan bleidiau gwleidyddol.

1.14 Roedd dau fater arwyddocaol a ddaeth i'r fei wedi taflu rhywfaint o gysgod dros ddarparu'r etholiad yn ddidrafferth. Cododd y cyntaf fis cyn yr etholiad a chododd yr ail bythefnos ar ôl yr etholiad. Roedd y cyntaf yn ymwneud ag amser cyfrif pleidleisiau'r etholiad, ar ôl cael gwybod y byddai Swyddogion Canlyniadau yn rhanbarth etholiadol Gogledd Cymru yn cyfrif y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio yn hytrach na dros nos. Daeth hwn yn destun dadlau ddechrau mis Ebrill, yn fuan ar ôl i'r ymgyrchu etholiadol ddechrau arni. Am ychydig o ddiwrnodau, roedd cymaint os nad mwy o sylw yn y cyfryngau i'r ddadl dros amseru'r cyfrif ag oedd i'r ymgyrchu etholiadol. Rydym yn adrodd ar y mater hwn a'r camau rydym yn eu cymryd i geisio osgoi dadleuon cyhoeddus tebyg cyn unrhyw etholiadau eraill.

1.15 Cododd mater arwyddocaol arall o ddiddordeb i'r cyhoedd ar ôl yr etholiad. Daeth i'r amlwg nad oedd dau ymgeisydd a oedd wedi ennill seddi fel Aelodau Cynulliad mewn etholiadau rhanbarthol wedi eu hethol yn ddilys oherwydd bod swyddi a oedd ganddynt yn golygu eu bod wedi eu gwahardd. Ymchwiliodd yr heddlu i'r mater ac, ar ôl i Wasanaeth Erlyn y Goron ddod i'r casgliad na chafodd unrhyw droseddau eu cyflawni, ymchwiliodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r mater hefyd. Daeth gweithredoedd y Comisiwn ei hun dan lach y cyhoedd o ganlyniad i gamgymeriad yn fersiwn Cymraeg ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac i asiantau, a oedd yn bwysig yn un o'r achosion. Roeddem wedi cyhoeddi ymddiheuriad i'r Cynulliad ac i'r unigolyn dan sylw. Mae'n bwysig bod ein cyfarwyddyd yn gywir a bod modd ymddiried ynddo ac rydym wedi diwygio ein prosesau mewnol yn drylwyr i sicrhau na fydd camgymeriad o'r fath yn digwydd eto. Mae ein hadroddiad yn delio â'r mater hwn yn fanwl.

Ffeithiau a ffigurau

1.16 Dyma grynodeb o ganlyniadau'r etholiad ar sail etholaethau a rhanbarthau, ynghyd â'r nifer a bleidleisiodd yn yr etholiad a chyfran y bleidlais.

Tabl 1: Y nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad

	2011[4]	2007	2003	1999
Etholwyr cofrestredig	2,289,735	2,248,122	2,229,545	2,205,117
Y nifer a bleidleisiodd, pleidleisiau etholaeth	41.8%	43.5%	38.2%	46.4%
Y nifer a bleidleisiodd, pleidleisiau rhanbarthol	41.8%	43.4%	38.1%	46.1%

Tabl 2: Cyfanswm y seddi a enillwyd

	Ceidwadwyr	Llafur	Democratiaid Rhyddfrydol	Plaid Cymru	Annibynnol
2011	14	30	5	11	0
2007	12	26	6	15	1

Tabl 3: Cyfran pleidlais etholaethol a'r seddi a enillwyd

	% cyfran y bleidlais	newid er 2007	seddi a enillwyd	newid er 2007
Ceidwadwyr	25	+2.6	6	+1
Llafur	42.3	+10.1	28	+4
Democratiaid Rhyddfrydol	10.6	-4.2	1	-2
Plaid Cymru	19.3	-3.1	5	-2
Eraill	2.8	-5.4	0	-1

[4] Mae'r ffigurau ar gyfer y nifer a bleidleisiodd yn 2011 yn cynnwys papurau pleidleisio a wrthodwyd yn y cyfrif. Dim ond pleidlsiau dilys sydd wedi cael eu cynnwys mewn ffigurau cyn 2011, oherwydd nad oes data cynhwysfawr ar gael am y pleidleisiau a wrthodwyd. Fel rheol nid oes llawer o wahaniaeth rhwng y ddwy ffordd hyn o gofnodi'r nifer sy'n pleidleisio. Er enghraifft, drwy dynnu'r pleidleisiau a wrthodwyd o ffigur y nifer a bleidleisiodd mewn etholaethau yn 2011, mae'r nifer a bleidleisiodd yn 41.5%.

Tabl 4: Cyfran pleidlais y rhestr ranbarthol a'r seddi a enillwyd

	% cyfran y bleidlais	newid er 2007	seddi a enillwyd	newid er 2007
Ceidwadwyr	22.5	+1.1	8	+1
Llafur	36.9	+7.2	2	-
Democratiaid Rhyddfrydol	8	-3.7	4	+1
Plaid Cymru	17.9	-3.1	6	-2
Eraill	14.7	-1.5	0	-

2 Profiad y pleidleiswyr

2.1 Mae'r bennod hon yn trin ac yn trafod profiad y pleidleiswyr yn yr etholiad. Rydym yn adolygu pa mor hawdd oedd cymryd rhan yn yr etholiad, gan gynnwys profiad y pleidleiswyr o gofrestru i bleidleisio, yr wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd am yr etholiad, a phrofiad pobl mewn gorsafoedd pleidleisio ac wrth bleidleisio drwy'r post.

Cofrestru i bleidleisio

2.2 Sylfaen unrhyw etholiad yw cofrestr etholiadol gyflawn a chywir, gan ei bod yn rhaid i bobl gael eu cynnwys yn y gofrestr etholwyr er mwyn cael pleidleisio.

2.3 Prif ffocws y gweithgaredd cofrestru etholiadol yw cofrestru etholwyr mewn cartrefi a chaiff hyn ei wneud yn ystod hydref bob blwyddyn (y 'canfas blynyddol' yw'r enw cyffredin ar hyn). Caiff unigolion hefyd gofrestru neu newid eu manylion unrhyw adeg o'r flwyddyn, proses a elwir yn 'gofrestru parhaus', fel arfer oherwydd eu bod yn symud tŷ neu ar ôl colli'r canfas blynyddol.

Pwy allai bleidleisio

2.4 Mae'r etholfraint ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yr un fath ag ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru. Gallai pobl bleidleisio yn yr etholiad os oeddent wedi eu cofrestru i wneud hynny mewn cyfeiriad yng Nghymru, yn 18 oed neu'n hŷn ar 5 Mai 2011, ac yn un o ddinasyddion Prydain, Iwerddon, yr Undeb Ewropeaidd neu yn un o ddinasyddion cymwys y Gymanwlad[5] yn byw yn y DU.

2.5 Roedd 2,289,735 o bobl wedi'u cofrestru i bleidleisio ar 5 Mai. 14 Ebrill oedd y dyddiad olaf i gofrestru i bleidleisio - 11 diwrnod cyn yr etholiad.

2.6 Yn ôl data gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol, roedd 5,559 o bobl wedi manteisio ar y dyddiad cau 11-diwrnod drwy gofrestru ar ôl i'r cyfnod etholiad ffurfiol ddechrau. 25 Mawrth oedd hyn, sef pan oedd yn rhaid i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi hysbysiad swyddogol o'r etholiad. Yn ôl Swyddogion Cofrestru Etholiadol, roedd nifer y bobl a gofrestrodd ar ôl i'r cyfnod etholiadol ffurfiol ddechrau yn amrywio rhwng etholaethau mewn gwahanol rannau o Gymru. Roedd yn amrywio o ddim yn Nelyn, 12 ym Merthyr Tudful a Rhymni, 30 yn Ne Clwyd a Thor-faen, hyd at dros 300 yng Ngheredigion a 501 ym Mro Morgannwg.

---

[5] Hynny yw, sydd â chaniatâd i aros neu nad oes angen caniatâd i aros.

2.7 Mae data gan Swyddogion Cofrestru Etholiadol hefyd yn dangos bod o leiaf 895[6] o bobl wedi ceisio cofrestru i bleidleisio ar ôl y dyddiad cau 11-diwrnod. O'r data a ddarparwyd, roedd staff gorsafoedd pleidleisio wedi nodi bod 161 o bobl nad oeddent ar y gofrestr etholiadol wedi ceisio pleidleisio ar y diwrnod pleidleisio. Er nad yw'r ffigur hwn yn dangos yn union pwy fethodd bleidleisio oherwydd nad oeddent wedi cofrestru (gan na fyddai pawb wedi mynd i orsafoedd pleidleisio ac nad oedd pob etholaeth wedi darparu data) mae'n dangos bod dros 1,000 o bobl yng Nghymru naill ai wedi methu'r dyddiad cau i gofrestru; wedi meddwl bod y dyddiad cau yn hwyrach nag ydoedd; neu roeddent wedi camgymryd a oeddent wedi cofrestru i bleidleisio ai peidio.

2.8 Rhaid i'r cyfleuster i ganiatáu i bleidleiswyr gofrestru'n hwyr gael ei bwyso a'i fesur yn erbyn yr angen i gynnal hygrededd y cofrestri etholiadol drwy roi amser i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwblhau prosesau sy'n cyfyngu ar gofrestru twyllodrus. Rydym yn dal o'r farn bod cofrestru parhaus (sef cofrestru misol) a'r dyddiad cau 11-diwrnod yn gyfleusterau gwerthfawr i bleidleiswyr.

2.9 Roedd cyfanswm y nifer a oedd wedi cofrestru i bleidleisio ychydig o gannoedd yn fwy na'r nifer a oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn refferendwm Cymru ar 3 Mawrth, a oedd â'r un etholfraint: 2,289,044. Roedd y cyfanswm a oedd wedi cofrestru ar gyfer etholiad mis Mai ddau y cant yn uwch o'i gymharu ag etholiad y Cynulliad yn 2007. Mae hyn yn debyg i'r cynnydd yn y boblogaeth oedolion yng Nghymru dros yr un cyfnod.

2.10 Roedd yr etholfraint ar gyfer refferendwm y DU a gynhaliwyd ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad yr un fath ag ar gyfer etholiadau i Senedd y DU, sy'n golygu bod dwy gofrestr etholiadol yn cael eu defnyddio yng Nghymru. Roedd yn rhaid i staff y gorsafoedd pleidleisio fod yn ofalus eu bod yn rhoi'r papurau pleidleisio cywir i'r rheini a oedd â'r hawl i bleidleisio yn yr etholiad neu'r refferendwm yn unig neu'r naill a'r llall. Y prif wahaniaeth oedd bod etholwyr o dramor â hawl i bleidleisio yn refferendwm y DU a bod dinasyddion aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (UE) (ac eithrio'r DU, Gweriniaeth Iwerddon, Cyprus a Malta) â hawl i bleidleisio yn yr etholiad, ond nid y refferendwm.

Profiad pobl o gofrestru i bleidleisio

2.11 Ar y cyfan roedd pobl yn fodlon â'r broses o gofrestru i bleidleisio. Yn ein harolwg barn y cyhoedd,[7] dywedodd 85% o'r rheini a holwyd yng Nghymru eu bod yn fodlon â'r weithdrefn ar gyfer cofrestru i bleidleisio, sef yr un lefel â gweddill Prydain Fawr. Dim ond 2% ddywedodd eu bod yn anfodlon â gweithdrefnau ar gyfer cofrestru i bleidleisio.

[6] Cafodd data ei ddarparu gan 30 o'r 40 etholaeth.
[7] Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ymchwil barn y cyhoedd.

Pam bleidleisiodd pobl a pham na phleidleisiodd pobl

2.12 Roedd ein hymchwil barn y cyhoedd wedi holi pam bleidleisiodd pobl neu pham na phleidleisiodd pobl yn yr etholiad.

2.13 Yn yr un modd ag ymchwil blaenorol ar ôl etholiadau, roedd y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd am bleidleisio yn ymwneud â synnwyr o fod â dyletswydd i bleidleisio a theimlo ei bod yn bwysig gwneud hynny. Roedd cyfran mymryn yn uwch o bleidleiswyr Cymru, 66%, wedi rhoi rheswm o'r fath, o'i gymharu â 61% yn y DU drwyddi draw. Roedd rhesymau cyffredin eraill a roddwyd yn cynnwys mynegi barn (36%) a chreu newid (16%).

2.14 Yn debyg iawn eto i arolygon eraill a gynhaliwyd ar ôl etholiadau, dywedodd dros hanner y rheini nad oeddent wedi pleidleisio fod amgylchiadau wedi eu rhwystro rhag gwneud hynny, a dywedodd oddeutu hanner y rhain eu bod yn rhy brysur i bleidleisio.

Yr wybodaeth roeddem wedi'i darparu

2.15 Gwnaethom gynnal ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar draws nifer o gyfryngau yng Nghymru a chafodd yr ymgyrch hon ei lansio ddiwedd mis Mawrth 2011. Ei nod oedd codi ymwybyddiaeth pobl o etholiadau'r Cynulliad a refferendwm y DU ar 5 Mai. Prif nodwedd yr ymgyrch oedd cyflwyno llyfryn gwybodaeth. Roeddem wedi anfon y llyfryn hwn i bob cartref yng Nghymru. Roedd y llyfryn yn cynnwys gwybodaeth am yr etholiadau, gan gynnwys sut i gymryd rhan, ynghyd â gwybodaeth am bwnc refferendwm y DU a sut i gymryd rhan. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gofrestru i bleidleisio, pleidleisio drwy'r post a drwy ddirprwy.

2.16 Gwnaethom gynnal ymgyrch debyg ar gyfer y refferendwm ar bwerau deddfu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Mawrth. Mae manylion yr ymgyrch honno ar gael yn ein hadroddiad ar y refferendwm hwnnw.[8]

2.17 Roedd ein hymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau'r Cynulliad wedi'i hanelu at bob pleidleisiwr cymwys a chafodd ei chynnal mewn dau gam drwy ddefnyddio hysbysebion ar deledu, ar radio ac ar-lein. Dechreuodd gam cyntaf yr ymgyrch ar 1 Ebrill a'i nod oedd rhoi gwybod i bobl bod llyfryn ar ei ffordd a fyddai'n egluro beth oedd yn digwydd ar 5 Mai a sut byddai modd iddyn nhw gymryd rhan. Dechreuodd ail gam yr ymgyrch ar 25 Ebrill. Ei nod oedd atgyfnerthu'r neges wreiddiol ar yr un pryd â sicrhau bod modd i unrhyw un nad oedd wedi derbyn copi o'r llyfryn eto wneud hynny drwy

[8] Adroddiad ar y Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru 3 Mawrth 2011 http://www.electoralcommission.org.uk/__data/assets/pdf_file/0005/118607/Wales-ref-report-WELSH-web.pdf

ymweld â'n gwefan www.fymhleidlaisi.org.uk neu drwy ffonio ein llinell gymorth bwrpasol ac archebu copi.

2.18 Derbyniodd ein llinell gymorth dros 9,750 o alwadau ac anfonwyd 1,753 o lyfrynnau a 1,361 o ffurflenni cofrestru pleidleiswyr.

2.19 Cafodd y llyfryn ei ddosbarthu drwy wasanaeth O Ddrws i Ddrws y Post Brenhinol ac roedd y cynllun dosbarthu yn cynnwys pob ardal cod post yng Nghymru. Roedd gwerthusiad annibynnol o ddosbarthu'r llyfryn wedi amcangyfrif bod 96% wedi cael eu dosbarthu.

2.20 Roedd ein gwefan ar gyfer pleidleiswyr www.fymhleidlaisi.org.uk hefyd yn cynnwys adran ar etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys copi o'r llyfryn. Roedd tudalen etholiadau'r Cynulliad wedi derbyn 18,710 o ymweliadau dros gyfnod ein hymgyrch gwybodaeth gyhoeddus, ac roedd ein gwefan i bleidleisiwr drwyddo draw wedi derbyn oddeutu 778,000 o ymweliadau.

Lefelau ymwybyddiaeth y cyhoedd ar ôl ein hymgyrch gwybodaeth gyhoeddus

2.21 Gwnaethom werthuso lefelau ymwybyddiaeth pobl drwy gynnal ymchwil barn y cyhoedd cyn ac ar ôl ein hymgyrch gwybodaeth gyhoeddus.[9]

2.22 O'r rheini a gymerodd ran yn yr arolwg yng Nghymru, roedd 78% yn adnabod o leiaf un elfen o'n hymgyrch ac roedd 43% wedi gweld ein hysbysebion ar y teledu.

2.23 Roedd nifer y bobl a ddywedodd yn ddigymell (hynny yw, dim ond wrth eu holi am gyfleoedd diweddar i bleidleisio neu gyfleoedd i bleidleisio yn y dyfodol) eu bod yn ymwybodol o etholiadau'r Cynulliad, wedi codi o 21% cyn ein hymgyrch i 59% ar ôl y diwrnod pleidleisio. Roedd ymwybyddiaeth wedi codi ymhellach i 82% ar ôl holi pobl a oeddent yn ymwybodol o etholiadau'r Cynulliad.

2.24 Mewn cymhariaeth, roedd nifer y bobl yng Nghymru a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o'r refferendwm ar System Bleidleisio Seneddol y DU wedi codi o sylfaen is sef 9% i lefelau tebyg (58% yn ddigymell a 77% wedi'u cymell) dros yr un cyfnod.

Oedd pobl yn teimo'n wybodus?

2.25 Roedd saith o bob deg o'r farn bod ganddynt ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ar sut i bleidleisio yn yr etholiad. Roedd pobl a bleidleisiodd yn yr etholiad yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael digon o wybodaeth am sut i bleidleisio (83% o'r rheini a ddywedodd eu bod wedi pleidleisio o'i gymharu â 54% o'r rheini a ddywedodd nad oeddent), fel yr oedd

[9] Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ymchwil olrhain yr ymgyrch.

pleidleiswyr hŷn (79% o'r rheini a oedd yn 55 oed a hŷn, o'i gymharu â 60% o bobl 18-34 oed).

2.26 Wrth edrych ar safbwyntiau pobl am lefel y sylw a roddwyd i'r etholiad yn y cyfryngau, roedd ein gwaith ymchwil barn y cyhoedd wedi canfod bod y sefyllfa yng Nghymru yn wahanol i'r sefyllfa yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd dros hanner y bobl a holwyd yng Nghymru (54%) yn meddwl bod llawer o sylw yn y cyfryngau i etholiad y Cynulliad. Roedd 72% o'r rheini a holwyd yn yr Alban, a 70% o'r rheini a holwyd yng Ngogledd Iwerddon yn meddwl bod llawer o sylw yn y cyfryngau i'r etholiadau a oedd yn cael eu cynnal yno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y dadansoddiad o'r ymchwil ar sylw yn y cyfryngau a gynhaliwyd ar ein rhan yn mis Mai mewn perthynas â'r digwyddiadau pleidleisio.[10] Canfu'r ymchwil hwn fod cyfanswm y straeon papur newydd a theledu ar etholiadau'r Cynulliad yng Nghymru ychydig yn is na'r straeon etholiadol a gafwyd yng Ngogledd Iwerddon ac yn sylweddol is na'r straeon etholiadol a gafwyd yn yr Alban. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod gan yr Alban ei fersiynau ei hun o bapurau newydd dyddiol cenedlaethol a bod fersiwn o BBC Newsnight ar gyfer yr Alban.

2.27 Serch hynny, roedd 65% o'r rheini a atebodd yr arolwg yng Nghymru o'r farn bod llawer o sylw yn y cyfryngau i refferendwm y DU, a gynhaliwyd ar yr un diwrnod â'r etholiad. Mae hyn yn adlewyrchu'r sylw amlycach i refferendwm y DU gan gyfryngau Llundain, sy'n cael eu darllen, eu gwylio neu eu clywed yng Nghymru. Roedd cyfryngau Cymru wedi rhoi mwy o amlygrwydd i etholiadau'r Cynulliad.[11]

Profiad pobl o bleidleisio

Profiad pobl a bleidleisiodd mewn gorsafoedd pleidleisio

2.28 Mae pobl yn dal yn fodlon iawn â phleidleisio mewn gorsafoedd pleidleisio. Roedd bron i'r holl bleidleiswyr (97%) mewn gorsafoedd pleidleisio yn fodlon â'r broses o bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio, gyda 76% yn fodlon iawn ac 1% yn anfodlon. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein harolygon ar refferendwm Cymru a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, pan oedd 96% yn fodlon.

2.29 O'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd 73% yn teimlo bod pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yng Nghymru yn gyfleus. Roedd y rheini a oedd yn bwrw eu pleidlais yn eu gorsaf bleidleisio leol yn fwy tebygol o ddatgan ei bod yn gyfleus, gyda 96% yn datgan hynny. Unwaith eto, mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau ein harolwg ar ôl refferendwm Cymru a gynhaliwyd ar 3 Mawrth, pan ddywedodd 92% o'r rheini a bleidleisiodd mewn gorsaf bleidleisio ei bod yn gyfleus.

---

[10] Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ymchwil dadansoddi'r cyfryngau.
[11] Mae Atodiad A yn cynnwys manylion ymchwil dadansoddi'r cyfryngau.

2.30 Dywedodd pawb a holwyd a oedd wedi pleidleisio mewn gorsaf bleidleisio (100%) ei bod yn hawdd mynd i mewn i'r orsaf bleidleisio i bleidleisio ar 5 Mai, a dywedodd naw o bob deg ei bod yn hawdd iawn.

2.31 Cafodd y pleidleiswyr eu holi am yr awyrgylch tu mewn i'r orsaf bleidleisio. Roedd pawb bron (97%) yn cytuno bod eu gorsaf bleidleisio 'yn drefnus'. Dywedodd yr un gyfran (97%) 'ei bod yn ddiogel'. Roedd pleidleiswyr gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru (98%) ychydig yn fwy tebygol o gytuno bod eu gorsaf bleidleisio yn cael 'ei rhedeg yn dda gan staff' nag ar draws y DU drwyddi draw (96%).

2.32 Er y bu gwelliant sylweddol o ran hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae mynediad i mewn neu o fewn yr orsaf bleidleisio yn gyfyngedig mewn rhai gorsafoedd o hyd. Fel rheol mae'r rhain mewn ardaloedd lle nad oes llawer o ddewisiadau eraill ar gael neu lle byddai defnyddio adeilad mwy hygyrch ar draul bod o fewn pellter hwylus i'r rhan fwyaf o bleidleiswyr lleol. Rydym yn annog awdurdodau lleol i ddal ati i adolygu eu gorsafoedd pleidleisio ac maen nhw'n gweithio'n galed i wneud hynny. Bydd cylch pedair blynedd o adolygiadau statudol o orsafoedd pleidleisio wedi cael ei gwblhau ar draws Cymru erbyn diwedd 2011. Rydym yn disgwyl bydd hyn yn arwain at welliannau pellach o ran hygyrchedd.

Gwybodaeth i bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio

2.33 Roedd bron i dri chwarter (73%) o bleidleiswyr gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn teimlo bod y cymorth a'r gefnogaeth a oedd ar gael oddi wrth staff yr orsaf bleidleisio yn ddefnyddiol. Yn yr un modd â phleidleiswyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd pleidleiswyr gorsafoedd pleidleisio yng Nghymru yn fwy tebygol o ddweud y bu'r cymorth a'r gefnogaeth hyn yn ddefnyddiol na'r rheini yn Lloegr (66%).

2.34 Dywedodd cyfran debyg (74%) fod y cyfarwyddiadau ysgrifenedig (posteri neu gyfarwyddyd) a oedd yn cael eu harddangos yn yr orsaf bleidleisio yn ddefnyddiol. Roeddent ychydig yn fwy tebygol o ddweud hyn na phleidleiswyr ar draws y DU drwyddi draw (69%).

Profiad pobl a bleidleisiodd drwy'r post

2.35 Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais bost oedd 5yh ddydd Iau 14 Ebrill. Roedd cyfanswm o 389,150 o bobl wedi cael pleidlais bost, hynny yw, 17% o'r etholwyr.

2.36 Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl yng Nghymru sy'n dewis pleidleisio drwy'r post er 2000, pan ddaeth yn bosibl gwneud hynny 'ar alw'. Mae'n ymddangos bod lefelau pleidleisio drwy'r post nawr yn fwy cyson; roedd lefel debyg iawn yn refferendwm Cymru ar 3 Mawrth (16.6%) ac yn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010 (16.4%).

2.37 Serch hynny, mae canran yr etholwyr sydd â phleidlais bost yn amrywio ar draws Cymru, fel y dangosir isod.

- Dwyfor Meirionnydd oedd yr isaf, gyda 12% o'r etholwyr â phleidlais bost.
- Castell-nedd Port Talbot oedd yr uchaf, gyda 22% o'r etholwyr â phleidlais bost.
- Mewn 25% o'r holl etholaethau (10), roedd gan 20% neu fwy o'r etholwyr bleidlais bost. Roedd y mwyafrif yn Ne Cymru, gan gynnwys Caerdydd.
- Yn yr etholiadau rhanbarthol, roedd gan 19% o'r pleidleiswyr yn rhanbarthau Canol De Cymru a Gorllewin De Cymru bleidlais bost o'i gymharu â 15% yng Ngogledd Cymru.

2.38 Yn yr un modd ag etholiadau blaenorol, roedd y nifer a bleidleisiodd o blith y rheini a oedd â phleidlais bost yn uwch o lawer na phleidleiswyr a oedd yn pleidleisio yn bersonol. O'r rheini a oedd wedi cofrestru i bleidleisio drwy'r post, roedd 71% wedi gwneud hynny, a oedd yn cyfrif am 28% o'r holl bleidleisiau a fwriwyd yn yr etholiad.

2.39 Ar y cyfan, roedd y bobl a bleidleisiodd drwy'r post ar 5 Mai yn gadarnhaol am eu profiad. Roedd pawb bron (98%) a bleidleisiodd drwy'r post wedi dweud eu bod yn fodlon â'r broses, gan adlewyrchu canfyddiadau mewn etholiadau diweddar blaenorol. Mae hyn yn cymharu â 59% o'r holl ymatebwyr a oedd yn ystyried bod pleidleisio drwy'r post yn gyfleus.

2.40 Dywedodd naw o bob deg ei bod yn hawdd deall beth oedd angen ei wneud er mwyn pleidleisio a dychwelyd eu pleidlais bost. Roedd y mwyafrif llethol o bleidleiswyr drwy'r post (94%) hefyd yn teimlo bod y cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar sut i ddychwelyd eu papur pleidleisio yn ddefnyddiol. Mae hwn yn ganfyddiad cadarnhaol, ac ystyried bod pleidleiswyr drwy'r post yng Nghymru wedi derbyn tri phapur pleidleisio i'w llenwi a'u ddychwelyd yn eu pecyn pleidleisio drwy'r post - dau bapur pleidleisio ar gyfer etholiad y Cynulliad ac un ar gyfer refferendwm y DU. Roedd y Comisiwn wedi darparu cyfarwyddiadau templed hawdd eu defnyddio i'w cynnwys mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post. Roedd y templedi wedi cael eu profi ar bleidleiswyr.

Pleidleisiau post annilys

2.41 Yn etholiadau'r Cynulliad, cafodd 276,641 o amlenni pleidlais bost eu dychwelwyd gan bleidleiswyr. Cafodd 12,650 o bleidleisiau etholaeth a 11,745 o bleidleisiau rhanbarthol eu gwrthod. Roedd y Swyddogion Canlyniadau wedi datgan eu bod yn annilys ac mae hyn yn cynrychioli ychydig dan 5% o'r cyfanswm.[12]

2.42 Rhaid i Swyddogion Canlyniadau wrthod pleidleisiau post a ddychwelir os yw'r datganiad pleidleisio drwy'r post neu'r papur pleidleisio ar goll. Rhaid eu gwrthod os nad oes modd cyfateb y manylion personol a fydd yn cael eu

[12] Dylid trin y ffigurau hyn yn ofalus oherwydd rhai anghysondebau wrth adrodd.

dychwelyd gan y pleidleiswyr gyda'u pleidlais bost â'r manylion hynny a roddwyd ar eu cais am bleidlais bost. Ceir gofyniad cyfreithiol i gyfateb y dynodyddion personol hyn, er mwyn osgoi twyll wrth bleidleisio.

2.43 Roedd y Prif Swyddog Cyfrif yn refferendwm y DU, a oedd wedi'i gyfuno ag etholiad y Cynulliad, wedi cyfarwyddo Swyddogion Cyfrif lleol i gynllunio i wirio 100% o'r dynodyddion personol (llofnodion a dyddiadau geni) ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd. Er na allai gyfarwyddo Swyddogion Canlyniadau i wneud hynny ar gyfer etholiad y Cynulliad, roeddem wedi argymell iddynt wneud hynny. Mewn gwirionedd, dywedodd yr holl Swyddogion Cyfrif a'r Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru (yr un bobl yn ymarferol) wrthym eu bod wedi dilysu 100% o'r holl ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a gafodd eu dychwelyd.

2.44 Roedd yr holl Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru wedi gwirio 100% yn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010 ac yn y tri digwyddiad pleidleisio yn 2011. Er 2007 rydym wedi gofyn droeon i Lywodraeth y DU orfodi system o archwiliadau diogelwch pleidleisio drwy'r post sy'n fwy cadarn a chyson ac sy'n mynnu bod yr holl ddynodyddion personol ar yr holl becynnau pleidleisio drwy'r post sy'n cael eu dychwelyd yn cael eu gwirio – yn hytrach na'r isafswm presennol sef 20% ym mhob sesiwn agor amlenni – cyn i bapurau pleidleisio drwy'r post gael eu cynnwys yn y cyfrif.

2.45 Rydym felly'n croesawu'r cyhoeddiad[13] a wnaed ym mis Medi 2011 bod Llywodraeth y DU yn cynnig newid y ddeddfwriaeth i fynnu bod Swyddogion Canlyniadau yn gwirio dynodyddion personol ar 100% o'r datganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelir. Fel rhan o'r newid hwn bydd ar Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru angen sicrhau bod digon o arian ar gael i Swyddogion Canlyniadau i gefnogi gwirio 100% ym mhob etholiad yng Nghymru.

2.46 Mae cyfradd gwrthod y pleidleisiau drwy'r post yng Nghymru, sef ychydig dan 5% yn cymharu ag ychydig dan 6% o'r papurau pleidleisio a wrthodwyd yn refferendwm y DU yn gyffredinol. Cafodd cyfran debyg, ychydig dan 5%, ei gwrthod yng Nghymru yn etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010.

2.47 Yn refferendwm Cymru ar 3 Mawrth, cafodd llai o bleidleisiau drwy'r post eu gwrthod: ychydig dros 3%, o dros 250,000 o bleidleisiau post a ddychwelwyd. Efallai fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod llai o bapurau yn y pecyn pleidleisio drwy'r post i bleidleiswyr ddelio â nhw a'u dychwelyd – ym mis Mawrth roedd un papur pleidleisio i'w lenwi, gydag 'Ydw' neu 'Nac ydw' a datganiad pleidleisio drwy'r post – o'i gymharu â thri phapur pleidleisio, dau gyda nifer o ddewisiadau, a datganiad pleidleisio drwy'r post, ym mis Mai. O blith y papurau pleidleisio drwy'r post a wrthodwyd yn etholiad y Cynulliad, dywedwyd bod oddeutu hanner y rhain yn annilys oherwydd bod y papur

[13] Swyddfa'r Cabinet, *The UK Government's Response to Reports on the Administration of the 2010 UK Parliamentary general election* (Medi 2011).

pleidleisio neu'r datganiad pleidleisio drwy'r post ar goll; ym mis Mawrth, cafodd oddeutu traean (31%) eu gwrthod am y rheswm hwnnw.

2.48 Roedd cyfran sylweddol arall o bleidleisiau post wedi cael eu gwrthod oherwydd nad oedd y dyddiad geni neu'r llofnod ddim yn cyfateb â'r cofnodion. Mae adborth gan Swyddogion Canlyniadau'n awgrymu bod y rhesymau dros hyn yn cynnwys: pobl yn rhoi dyddiad llenwi'r bleidlais bost yn hytrach na'u dyddiad geni; newid enw, megis ar ôl priodi; a newid mewn llofnod dros amser. Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y pleidleisiau post a wrthodwyd am resymau gwahanol. Mae'n ymddangos nad yw'r holl ddata a gawsom gan Swyddogion Canlyniadau yn hollol gyson, felly dangosol yw'r ffigurau.

Tabl 5: Rhesymau dros wrthod pleidlais bost yn etholiad y Cynulliad

Rheswm dros wrthod	%
Datganiad pleidleisio drwy'r post neu bapur pleidleisio ar goll	50
Dyddiad geni ar goll	8
Llofnod ar goll	4
Y ddau ar goll	4
Dyddiad geni ddim yn cyfateb	18
Llofnod ddim yn cyfateb	12
Y ddau ddim yn cyfateb	4

2.49 Er ei bod yn amlwg yn bwysig bod mesurau ar waith sy'n gallu canfod ac atal twyll yn effeithiol, ni ddylai'r mesurau hyn amddifadu pleidleiswyr sy'n gwneud camgymeriadau anfwriadol ar eu datganiadau pleidleisio drwy'r post rhag cael pleidleisio. Yn ymarferol mae hyn yn golygu bod rhai pobl yn pleidleisio, ond nad yw eu pleidlais yn cael ei chyfrif. Byddai caniatáu i Swyddogion Canlyniadau ofyn am lofnod wedi'i adnewyddu, a hefyd rhoi adborth i etholwyr os cafodd eu pleidlais ei gwrthod, yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

2.50 Gwnaethom yr argymhelliad hwn yn wreiddiol yn ein gwerthusiad ym mis Gorffennaf 2007 ynghylch cyflwyno dynodyddion personol ar gyfer pleidleisio absennol yng Nghymru a Lloegr, a chafodd ei ailadrodd yn ein hadroddiad ym mis Gorffennaf 2010 ar etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010. Yn ei hymateb

i'r adroddiad hwnnw ym mis Medi 2011, dywedodd Llywodraeth y DU[14] y byddai'n gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a'r gweinyddwyr etholiadol i nodi sut i osgoi'r problemau yr ydym wedi eu hamlygu gyda'r system pleidleisio drwy'r post bresennol, gan ystyried yr angen i sicrhau ei bod yn dal yn ddiogel yn erbyn ceisiadau twyllodrus am bleidleisiau post. Rydym yn edrych ymlaen at glywed rhagor o fanylion ynghylch sut y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datblygu'r gwaith hwn.

Casglu pleidleisiau post

2.51 Mae un rhan o sicrhau bod pob pleidlais bost yn cael ei chyfrif yn golygu sicrhau bod yr holl bleidleisiau post yn cael eu casglu o ganolfannau post erbyn i'r cyfnod pleidleisio gau. Fel rheol, mae modd i Swyddogion Canlyniadau drefnu ymgyrch 'ysgubo' ar y diwrnod pleidleisio. Mae'r 'ysgubo' yn golygu bod y Post Brenhinol yn casglu unrhyw bleidleisiau post sydd ar ôl o brif ganolfan bost ac, os gwneir cais, canolfannau post cyfagos, er mwyn iddynt gael eu cynnwys yn y cyfrif.

2.52 Fel arfer, bydd Swyddogion Canlyniadau unigol yn gyfrifol am drefnu a thalu am yr 'ysgubo'. Ym mis Mai 2011, roedd y trefniadau ar gyfer yr 'ysgubo' yn wahanol i'r arfer, gan fod y Comisiwn wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros drefnu a thalu'r gost yn ganolog mewn perthynas â refferendwm y DU. Cafodd trefniadau eu gwneud i'r Post Brenhinol ddanfon pob pleidlais bost a oedd yn deillio o'r ysgubo yn uniongyrchol at Swyddogion Cyfrif, yn hytrach na bod yn rhaid i Swyddogion Cyfrif eu casglu.

2.53 Roedd hyn yn golygu bod yr holl Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru yn defnyddio'r un gwasanaeth ar gyfer etholiadau cyfun y Cynulliad.

2.54 Roeddem wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn i sicrhau cysondeb y gwasanaeth ar draws y DU ac i sicrhau bod y prosesau mwyaf cost effeithiol ar waith i gasglu ac i ddanfon cynifer o bleidleisiau post ag oedd yn bosibl yng Nghanolfannau'r Post Brenhinol. Roedd hi hefyd yn rhatach cael un cytundeb ar gyfer refferendwm y DU i gyd yn hytrach na chael nifer o gytundebau gwahanol ar draws y wlad.

2.55 Gwnaethom gytuno hefyd â'r Post Brenhinol y byddai oddeutu 250 o ymgyrchoedd ysgubo eilaidd o ganolfannau post. Cafodd y canolfannau hyn eu dewis ar y sail bod ysgubo fel rheol yn cael ei wneud yn yr ardaloedd hynny ac roedd gwybodaeth weithredol y Post Brenhinol wedi dangos bod digon o bost i olygu y byddai ysgubo eilaidd o'r fath yn ymarferol.

2.56 At ei gilydd mae'r adborth gan Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cyfrif am yr ysgubo wedi bod yn gadarnhaol, er bod rhai yn teimlo bod gan y Post Brenhinol lawer o le i wella o ran lefelau'r gwasanaeth, cysondeb a

---

[14] Swyddfa'r Cabinet, *The UK Government's Response to Reports on the Administration of the 2010 UK Parliamentary general election* (Medi 2011).

chyfathrebu yn enwedig gyda'r awdurdodau lleol unigol. Serch hynny, mae Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru yn dal yn amheus ynghylch gwerth yr ysgubo, gyda dim ond nifer fach o bleidleisiau post yn cael eu dychwelyd yn ei sgil. Rydym yn cydnabod mai cyfyngedig fydd budd ysgubo, oherwydd mai dim ond i Swyddogion Canlyniadau penodol y bydd canolfannau post lleol yn danfon. Ein nod yw datblygu model gweithio gwell gyda'r gwasanaeth post.

2.57 Derbyniwyd 1,419 o amlenni yn cynnwys pleidleisiau post ar ôl i'r bleidlais gau ar 5 Mai. Er bod hyn yn 35 ym mhob etholaeth ar gyfartaledd, roedd hyn yn amrywio o 124 yn Nyffryn Clwyd a 118 ym Mynwy i 12 yn Wrecsam a dim yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.

Pleidleisio drwy ddirprwy

2.58 Os oes gan etholwr reswm dilys sy'n golygu na all bleidleisio yn bersonol, megis salwch, anallu corfforol, ymrwymiadau gwaith, neu oherwydd ei fod dramor, mae modd iddo benodi dirprwy i bleidleisio ar ei ran, naill ai mewn gorsaf bleidleisio neu drwy'r post. Roedd 3,378 o bobl wedi gofyn am bleidlais drwy ddirprwy sydd, fel cyfran o'r holl etholwyr yng Nghymru, yn llai na 0.2%.

2.59 O'r cyfanswm hwnnw, penodwyd 23 o ddirprwyon o ganlyniad i argyfyngau meddygol. Y dyddiad cau ar gyfer penodi dirprwy sy'n pleidleisio drwy'r post oedd 5 pm ar 14 Ebrill a 5 pm ar 21 Ebrill ar gyfer dirprwy sy'n pleidleisio'n bersonol. Ar ôl yr adeg honno, gallai unrhyw un a oedd wedi disgyn yn sâl yn sydyn ac nad oedd modd iddo bleidleisio benodi dirprwy argyfwng, hyd at 5 pm ar ddiwrnod y pleidleisio ei hun.

Llenwi'r papur pleidleisio

2.60 Un o flaenoriaethau allweddol y Comisiwn yw bod pleidleiswyr yn gallu pleidleisio yn rhwydd ac yn hyderus, gan wybod y bydd eu pleidlais yn cael ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd. Mae fformat y ddau bapur pleidleisio ar gyfer etholiad y Cynulliad wedi'i ragnodi mewn is-ddeddfwriaeth[15] a oedd yn cynnwys y rheolau ynghylch sut mae'n rhaid cynnal etholiadau'r Cynulliad. Ysgrifennydd Gwladol Cymru oedd yn gyfrifol am y ddeddfwriaeth.

2.61 Roeddem wedi argymell i'r Ysgrifennydd Gwladol y dylid dylunio'r papurau pleidleisio yn ôl yr egwyddorion a geir yn ein cyfarwyddyd ar hygyrchedd papurau pleidleisio a deunyddiau etholiadol.[16] Cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar fformat terfynol y papur pleidleisio ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr Swyddogion Canlyniadau, staff gwasanaethau etholiadol, y prif bleidiau gwleidyddol a ninnau ac roedd yn diwallu ein canllawiau hygyrchedd.

---

[15] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010

[16] Y Comisiwn Etholiadol, *Making your Mark Good practice for designing voter materials guidance for electoral administrators* (2009).
www.dopolitics.org.uk/making-your-mark/?a=80804

2.62 Roedd ein harolwg barn y cyhoedd yn gofyn a oedd pleidleiswyr yn ei chael yn hawdd ynteu'n anodd llenwi papurau pleidleisio'r Cynulliad. Dywedodd pawb bron (96%) eu bod yn hawdd eu llenwi, gyda thri chwarter (76%) yn dweud ei bod yn hawdd iawn.

2.63 O'r rhai a arolygwyd, dywedodd 3% iddynt gael anawsterau yn llenwi'r papurau pleidleisio. Roedd pleidleiswyr ag anableddau yn fwy tebygol o ddweud ei bod yn anodd llenwi'r papurau pleidleisio. Ymhlith y rheini a gafodd anawsterau, y prif reswm a roddwyd oedd nad oedd cyfarwyddiadau clir.

2.64 Dywedodd pawb bron (96%) a oedd wedi pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad a refferendwm y DU a gynhaliwyd ar yr un diwrnod, sy'n golygu eu bod wedi llenwi tri phapur pleidleisio, ei bod yn hawdd llenwi mwy nag un papur pleidleisio ar yr un diwrnod.

2.65 Yn yr un modd, dywedodd mwyafrif helaeth y pleidleiswyr (94%) ei bod yn hawdd 'iawn' neu'n 'weddol' hawdd dod o hyd i enw'r ymgeisydd yr oeddent am bleidleisio drosto neu drosti ar bapur pleidleisio'r etholaeth. Roedd hyn yn debyg yn yr Alban (96%), lle'r oedd pleidleiswyr hefyd yn llenwi tri phapur pleidleisio - ar gyfer etholaeth a rhanbarth i Senedd yr Alban ac ar gyfer refferendwm y DU. Dywedodd yr holl bleidleiswyr bron ei bod yn hawdd dod o hyd i enw'r blaid roedd arnynt eisiau pleidleisio drosti ar y papur pleidleisio rhestr ranbarthol (96% yng Nghymru a'r Alban).

2.66 Roedd y papur pleidleisio ar gyfer y rhestr ranbarthol wedi cael ei ail ddylunio ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2011. Roedd hyn yn golygu bod enwau'r pleidiau gwleidyddol ac enwau ymgeiswyr unigol ar y rhestr ranbarthol yn cael eu dangos, ond dim enwau ymgeiswyr a oedd wedi'u cynnwys ar restri pleidiau gwleidyddol. Cododd mater penodol ynghylch peidio â chynnwys enwau ymgeiswyr ar bapur pleidleisio'r rhestr ranbarthol, ac rydym yn adolygu hyn ym Mhennod 3.

Hyder pobl bod eu pleidlais wedi cael ei chyfrif

2.67 Yn yr un modd â phleidleiswyr ar draws y DU, roedd y mwyafrif llethol o bleidleiswyr yn hyderus bod eu pleidlais wedi cael ei chyfrif yn yr etholiad, gyda dim ond 2% yn dweud nad oeddent yn hyderus. Dyma'r un gyfran a oedd yn hyderus bod eu pleidlais wedi cael ei chyfrif yn refferendwm Cymru ar 3 Mawrth.

2.68 Roedd pleidleiswyr drwy'r post a phleidleiswyr gorsaf bleidleisio yr un mor debygol o fod yn hyderus bod eu pleidlais yn cael ei chynnwys yn y cyfrif, er bod mwy o bleidleiswyr gorsaf bleidleisio yn hyderus iawn (75% o'i gymharu â 61%). Unwaith eto, roedd y canfyddiadau hyn yn debyg iawn i'r rheini a welwyd yn dilyn refferendwm Cymru ar 3 Mawrth.

Hyder pobl a'u bodlonrwydd â'r ffordd y cafodd yr etholiad ei gynnal

2.69 Roedd wyth o bob deg a holwyd yn fodlon â'r weithdrefn ar gyfer pleidleisio mewn etholiadau a refferenda ym Mhrydain Fawr yn gyffredinol. O'r bobl a arolygwyd, roedd 78% yn hyderus bod etholiadau'r Cynulliad wedi cael eu cynnal yn dda ac, o'r rheini a oedd yn pleidleisio, roedd 90% yn hyderus. Mae hyn yn cymharu â 73% o bleidleiswyr yng Nghymru a oedd yn hyderus bod etholiad cyffredinol Senedd y DU wedi cael ei gynnal yn dda yn 2010.

Hygrededd etholiadol

2.70 Dywedodd oddeutu pedwar o bob deg (41%) o ymatebwyr ein harolwg yng Nghymru eu bod yn deall o leiaf ychydig am dwyll sy'n ymwneud ag etholiadau a phleidleisio, o'i gymharu â 46% o holl ymatebwyr yr arolwg ar draws y DU i gyd. Yng Nghymru, dywedodd 27% o'r ymatebwyr nad oeddent yn deall dim byd o gwbl am dwyll.

2.71 Serch hynny, dywedodd 78% eu bod yn meddwl bod pleidleisio yn gyffredinol yn ddiogel rhag twyll a rhag cael ei gamddefnyddio, a oedd yn debyg i'r lefel yn y DU i gyd ac mae hynny wedi aros yn sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.

2.72 Gan ystyried arolygon barn y cyhoedd blaenorol, roedd 86% o ymatebwyr yr arolwg yng Nghymru ac yn y DU i gyd yn meddwl bod pleidleisio yn bersonol mewn gorsafoedd pleidleisio yn ddiogel.

2.73 Credir bod pleidleisio drwy'r post yn dal yn llai diogel na phleidleisio yn bersonol; roedd 57% o'r rheini a holwyd yng Nghymru a ledled y DU yn credu bod pleidleisio drwy'r post yn ddiogel. Serch hynny, dywedodd canran is nag yn 2010 ei bod yn anniogel; 19% o'i gymharu â 26% yn etholiad cyffredinol Senedd y DU.

2.74 Roedd chwarter y rheini a holwyd yng Nghymru yn poeni y gallai twyll a chamddefnyddio fod wedi digwydd yn etholiadau'r Cynulliad. Serch hynny, roedd hyn yn is nag ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010, pan ddywedodd 36% eu bod yn poeni am y peth. Wrth holi pam eu bod yn poeni bod rhyw fath o dwyll wedi digwydd, roedd ymatebwyr yr arolwg yn canolbwyntio'n bennaf ar pam mae twyll etholiadol yn beth drwg yn hytrach nag unrhyw bryderon mwy penodol. Roedd rhai yn poeni na fyddai'r system bresennol efallai'n cael gwared â thwyll.

3 Materion allweddol

Amseru cyfrif pleidleisiau etholiad y Cynulliad

Golwg gyffredinol

3.1 Swyddogion Canlyniadau unigol sydd i benderfynu pryd i gyfrif pleidleisiau. Mae'r gofyniad cyfreithiol yn mynnu eu bod yn gwneud hynny cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio.[17] Roedd Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn y rhanbarth etholiadol hwnnw wedi penderfynu cyfrif pleidleisiau etholiadau'r Cynulliad y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Pan ddaeth hi'n amlwg ddiwedd mis Mawrth mai Gogledd Cymru fyddai'r unig ranbarth etholiadol i wneud hynny, cafwyd cryn ddadlau, gydag arweinwyr y pedair plaid wleidyddol ac wedyn Llywydd y Cynulliad yn mynd ar goedd i feirniadu'r penderfyniad i gyfrif y pleidleisiau ddydd Gwener 6 Mai yn hytrach na dros nos. Roeddent yn poeni am ddiffyg dull cyson ar draws Cymru ac na fyddai canlyniadau'r etholiad i gyd yn hysbys nes byddai'r cyfrif yn dod i ben yng Ngogledd Cymru. Rhoddwyd llawer o sylw i'r mater yn y cyfryngau ym mis Ebrill, ychydig cyn yr etholiad.

Y Cefndir

3.2 Yn gynnar yn y broses gynllunio ar gyfer pleidleisiau mis Mai, bu trafodaeth ymhlith Swyddogion Canlyniadau am amseru cyfrif yr etholiad. Roedd hyn yn dilyn anawsterau yn etholiadau'r Cynulliad yn 2007. Yn ein hadroddiad ar yr etholiadau yn 2007 roeddem wedi cynnwys yr argymhelliad canlynol:

> Mae rhai Swyddogion Canlyniadau'n teimlo'n gryf y dylid cyfrif pleidleisiau etholiad y Cynulliad y diwrnod ar ôl yr etholiad. Mae'r Comisiwn yn dal i bwysleisio ei bod yn bwysig bod cyfrif pleidleisiau etholiad yn cael ei wneud yn gywir ac mewn ffordd dderbyniol yn hytrach nag yn gyflym. Er mai Swyddogion Canlyniadau sydd i benderfynu sut a phryd yw'r ffordd orau o gyflawni hyn, ar gyfer etholiadau ar lefel llywodraeth ddatganoledig, ni ddylai'r penderfyniad gael ei ystyried fel mater cymharol breifat a lleol. Caiff rhaglenni canlyniadau etholiad eu darlledu ar draws Cymru gan bob un o'r prif ddarlledwyr ac mae newyddion am ganlyniadau etholiad o bwys cenedlaethol.
>
> Mae'r Comisiwn yn credu bod penderfyniadau ynghylch amseru cyfrif pleidleisiau yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn benderfyniadau o bwys cyhoeddus. Gan ddysgu o brofiad yr etholiadau yn

[17] Rheol 54, Atodlen 5, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.

> 2007, dylai cyhoeddiadau cyhoeddus ynghylch amseru cyfrif pleidleisiau etholiadau'r Cynulliad yn y dyfodol gael eu gwneud cyn gynted â phosibl yn y cylch cynllunio etholiadau gan Swyddogion Canlyniadau.
>
> Adroddiad y Comisiwn Etholiadol, 2007

3.3 Ein blaenoriaeth ar gyfer pob pleidlais yn 2011 oedd y gallai pleidleiswyr a phleidiau fod yn ffyddiog bod yr holl bleidleisiau'n cael eu cyfrif yn gywir. Cadeirydd y Comisiwn, Jenny Watson, oedd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer refferendwm y DU a gynhaliwyd ar yr un diwrnod â'r etholiadau. Yn ystod y broses gynllunio ar gyfer pleidlais mis Mai roedd hi wedi datgan ei barn yn glir y dylai pleidleiswyr Cymru gael gwybod cyn gynted â phosibl pwy fydd yn eu cynrychioli yng Nghynulliad Cymru a phwy fyddai'n ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru. Er bod canlyniad y refferendwm yn bwysig i drefniadau cyfansoddiadol y DU, nid oedd ganddo ganlyniadau uniongyrchol ac nid oedd angen iddo ohirio canlyniadau etholiadau.

3.4 Oherwydd y sail resymegol honno, roedd y Prif Swyddog Cyfrif wedi cyfarwyddo y byddai pleidleisiau yn y refferendwm yn cael eu cyfrif ar draws y DU gan ddechrau am 4yh ar 6 Mai, er mwyn gallu cyfrif pleidleisiau'r etholiadau yn gyntaf. Cafodd penderfyniad y Prif Swyddog Cyfrif ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2010. Nod y cyhoeddiad cynnar oedd sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer cyfrif pleidleisiau yn y refferendwm yn hysbys ymhell cyn y pleidleisio ym mis Mai ac i hwyluso Swyddogion Canlyniadau i gynllunio cyfrif y pleidleisiau yn yr etholiadau.

3.5 Er mwyn gwneud ei phenderfyniad, roedd y Prif Swyddog Cyfrif wedi gofyn am sylwadau ar amseru cyfrif y pleidleisiau yn y refferendwm gan swyddogion cyfrif, pleidiau gwleidyddol, ymgyrchwyr yn y refferendwm a darlledwyr ar 'bapur materion', a oedd hefyd wedi'i roi ar ein gwefan i ofyn am ymatebion gan y cyhoedd. Roedd y Prif Swyddog Cyfrif wedi dilyn proses debyg o ofyn am sylwadau ar bapur materion ynghylch amseru'r cyfrif ar gyfer refferendwm Cymru ar 3 Mawrth.

3.6 Yn groes i hynny, Swyddogion Canlyniadau unigol oedd i benderfynu ar amseru'r cyfrif ar gyfer etholiadau'r Cynulliad, ar yr amod bod hynny'n bodloni'r gofyniad cyfreithiol bod hynny'n cael ei ddechrau cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio ar 5 Mai. Fel rheol bydd Swyddogion Canlyniadau yn gofyn am farn ac yn rhannu eu cynigion â phleidiau ac ymgeiswyr lleol wrth ystyried amseru'r cyfrif. Wrth benderfynu pryd i ddilysu a chyfrif pleidleisiau, mae angen iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n amrywio'n lleol, gan gynnwys: daearyddiaeth, y staff a'r lleoliadau sydd ar gael, diogelwch y blychau pleidleisio, nifer y pleidleisiau a fydd wedi'u dychwelyd drwy'r post a rheoli'r pleidleisiau hynny.

3.7 Un ffactor penodol eleni oedd nifer y papurau pleidleisio. Cyn gallu cyfri'r pleidleisiau mae'n rhaid dilysu'r papurau pleidleisio. Mae dilysu papurau pleidleisio yn golygu gwirio bod nifer y papurau pleidleisio ym mhob blwch pleidleisio naill ai'n cyfateb i nifer y papurau a gofnodwyd fel y'u cyhoeddwyd yn

yr orsaf bleidleisio, neu os nad ydynt yn cyfateb, bod modd canfod ac esbonio ffynhonnell yr amrywiad. Mae hefyd yn rhoi ffigur y gellir ei ddefnyddio i gysoni cyfanswm nifer y pleidleisiau sy'n cael eu cyfrif. Mae'r broses ddilysu wedi'i chwblhau ar ôl paratoi a llofnodi'r datganiad dilysu ar gyfer pob etholiad. Mae dilysu yn hanfodol er mwyn cael canlyniad etholiad neu refferendwm cywir.

3.8 Roedd yn rhaid dilysu'r papurau ar gyfer y tair pleidlais, hynny yw papurau pleidleisio'r ddau etholiad Cynulliad a phapur pleidleisio refferendwm y DU, cyn datgan unrhyw ganlyniadau. Diben y gofyniad cyfreithiol hwn oedd sicrhau y gellid rhoi cyfrif am bob papur pleidleisio a bod pob un yn mynd ymlaen i gael ei gyfrif. Roedd nifer fawr y papurau pleidleisio ar gyfer y tair pleidlais yn golygu y byddai'r gwaith dilysu yn cymryd mwy o amser nag ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2007, pan nad oedd refferendwm yn cael ei gynnal ar yr un pryd.

Gwahanol safbwyntiau

3.9 Cafwyd trafodaethau rhwng Swyddogion Canlyniadau am amseru'r cyfrif fel rhan o gyfarfodydd cynllunio etholiad a gafodd eu cynnull gan y Comisiwn a'u harwain gan Swyddog Cyfrif Rhanbarthol y refferendwm yng Nghymru, ym mis Tachwedd 2010, yn gynnar ym mis Ionawr 2011, ac yn olaf yng nghanol mis Mawrth. Er gwaethaf yr ymdrechion i ddod i gytundeb, roedd safbwyntiau gwahanol mewn rhanbarthau etholiadol ac etholaethau gwahanol. Roedd y rhan fwyaf o Swyddogion Canlyniadau, ond nid y cwbl, yn yr etholaethau cymharol drefol a chywasgedig yn nhri rhanbarth etholiadol De Cymru yn ffafrio cyfrif dros nos. At ei gilydd roedd Swyddogion Canlyniadau ledled Cymru mewn awdurdodau lleol sydd ag un etholaeth Cynulliad hefyd yn ffafrio cyfrif dros nos. Roedd hyn yn wahanol i'r safbwyntiau yng Ngogledd Cymru, lle mae etholaethau'n fwy gwledig ac mae gorsafoedd pleidleisio a lleoliadau cyfrif yn gallu bod yn bellach oddi wrth ei gilydd. Roedd Swyddogion Cyfrif yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru o'r farn y byddent yn gallu cyfrif dros nos, er y byddent hwythau hefyd yn wynebu'r un sialensiau o ran pellter.

3.10 Roedd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru a'r Swyddogion Canlyniadau yn y rhanbarth o'r farn bod eu cynlluniau wedi symud ymlaen gormod erbyn canol mis Mawrth 2011 i ddiwygio ac mai'r penderfyniad i gyfrif y diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio oedd y penderfyniad cywir ar gyfer y rhanbarth. Gwnaethant egluro eu bod wedi ymgynghori â phleidiau ac ymgeiswyr yn lleol.

3.11 Er bod Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol a Swyddogion Canlyniadau wedi ymgynghori â phleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr etholiadol yn lleol wrth benderfynu ar amseru'r cyfrif, nid oedd gwleidyddion cenedlaethol yn gwybod am y penderfyniad tan ddiwedd mis Mawrth. Yr adeg honno beirniadodd yr arweinwyr gwleidyddol y penderfyniad hwn oherwydd nad oedd dull cyson yn cael ei ddefnyddio ar draws Cymru ac na fyddai canlyniad terfynol yr etholiad yn hysbys nes i'r cyfrif ddod i ben yng Ngogledd Cymru.

3.12 Roedd gagendor rhwng safbwyntiau Swyddogion Canlyniadau a safbwyntiau gwleidyddion cenedlaethol. Mae modd gweld safbwyntiau'r pleidiau

mewn llythyr, gan y pedair prif blaid, ar 14 Ebrill at Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Gogledd Cymru, pan ysgrifennodd yr arweinwyr am eu pryder, gan alw am ailystyried y penderfyniad a gan ddatgan:

> Etholiad Cyffredinol Cymru yw hwn ac felly rydym yn credu ei bod yn anghywir y dylid trin pobl Gogledd Cymru yn wahanol, o ran yr adeg cânt wybod y canlyniadau lleol yn yr etholiad pwysig hwn. Mae amod y Comisiwn Etholiadol ei bod yn rhaid dechrau cyfrif pleidleisiau'r refferendwm ar y Bleidlais Amgen am 4.00yh ddydd Gwener, 6 Mai yn golygu os bydd rhai datganiadau yng Ngogledd Cymru yn cael eu gohirio o ganlyniad i ail-gyfrif, gallai'r broses gyfan fynd yn anhrefn ac yn ddryswch. Caiff y risg hon ei lleihau yng ngweddill y wlad oherwydd bydd y cyfrif wedi dechrau ddydd Iau, 5 Mai.
>
> Os caiff datganiadau eu gohirio yng Ngogledd Cymru, gellid gorfod gohirio canlyniad cyffredinol Etholiad Cyffredinol Cymru. Rydym o'r farn y byddai gohirio o'r fath yn annerbyniol i bobl Cymru gyfan – nid yn unig i bobl Gogledd Cymru.

3.13 Dywedodd Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Gogledd Cymru ei fod wedi ymgynghori ag ymgeiswyr ac asiantau yn y rhanbarth, yn yr un modd â Swyddogion Canlyniadau eraill yng Ngogledd Cymru, wrth ddod i'r penderfyniad rhanbarthol.

Hyd y cyfnod i gyfrif pleidleisiau

3.14 Mewn gwirionedd, roedd dilysu'r tri phapur pleidleisio a chyfrif dau bapur pleidleisio etholiad yn broses hir ym mhob rhanbarth, gan gynnwys mewn nifer o ardaloedd trefol a oedd wedi bod yn fwy hyderus ynglŷn â gorffen y broses o fewn cyfnod rhesymol dros nos. Awdurdod lleol un etholaeth Blaenau Gwent dreuliodd y cyfnod byrraf yn dilysu'r papurau pleidleisio etholiad a refferendwm a datgan canlyniad yr etholiad. Roedd hyn wedi cymryd 4 awr a 10 munud ar ôl diwedd y cyfnod pleidleisio. Blaenau Gwent oedd yr awdurdod lleol cyntaf i ddatgan canlyniad yn refferendwm Cymru ym mis Mawrth hefyd.

3.15 O blith yr etholaethau a fu'n cyfrif papurau pleidleisio dros nos, yr olaf i orffen oedd Gogledd Caerdydd, a lwyddodd i ddatgan y canlyniadau am 7.18yb ddydd Gwener 6 Mai. Y rhanbarth olaf oedd Canol De Cymru a orffennodd am 9.18yb. Yr etholaeth olaf i ddatgan, ar ôl dechrau cyfrif am 9yb ddydd Gwener 6 Mai, oedd De Clwyd, ac roedd hynny am 1.31yh. Roedd Gogledd Cymru wedi datgan am 1.48yh. Mae manylion llawn yr amseroedd cyfrif yn Atodiad B.

Cyfrif pleidleisiau etholiadau yn y dyfodol

3.16 Mae amseru cyfrif pleidleisiau etholiadau wedi tanio dadl mewn blynyddoedd diweddar mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd Senedd y DU wedi trafod amser cyfrif pleidleisiau etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010 ac roedd wedi deddfu i fynnu bod Swyddogion Canlyniadau yn dechrau cyfrif cyn

pen pedair awr o ddiwedd y cyfnod pleidleisio neu i egluro pam nad oedd modd iddynt wneud hynny. Mae cyfrif dros nos neu yn ystod y dydd wedi bod yn destun dadlau yn yr Alban dros y blynyddoedd. Roedd yr amser a gymerwyd i gyfrif pleidleisiau yng Ngogledd Iwerddon ym mis Mai 2011, mater gwahanol ond perthnasol, wedi ennyn beirniadaeth yn ystod ac ar ôl y cyfrif.

3.17 Nid oes gan y Comisiwn Etholiadol ddim swyddogaeth o ran amseru cyfrif pleidleisiau unrhyw etholiad. Serch hynny, mae'n amlwg bod angen rhoi sylw i'r mater o amseru.

3.18 Byddwn yn dosbarthu Papur Materion am amser cyfrif pleidleisiau etholiadau, gan nodi'r materion sydd wedi codi mewn etholiadau ledled y DU yn ddiweddar, erbyn diwedd mis Tachwedd 2011. Bydd y Papur Materion yn cynnwys tystiolaeth am y cyfnod a gymerir i gyfrif pleidleisiau mewn etholiadau gwahanol ac effaith ffactorau megis: cyfuno etholiadau; systemau etholaethol gwahanol; a nifer y papurau pleidleisio. Bydd y Papur Materion yn nodi'r safbwyntiau gwahanol sy'n cael eu harddel gan y rheini sy'n darparu etholiadau a'r pleidiau sy'n ymgyrchu ynddynt, yn ogystal â darlledwyr sy'n cynhyrchu rhaglenni canlyniadau etholiadau.

3.19 Byddwn yn gofyn am farn pobl sydd â diddordeb yn amseru cyfrif yr etholiad, gan gynnwys llywodraethau, pleidiau gwleidyddol, Swyddogion Canlyniadau, darlledwyr, a phleidleiswyr.

3.20 Yn dilyn dadansoddiad o'r sylwadau a gafwyd, byddwn yn gwneud argymhellion yn gynnar yn 2012 ar amseru cyfrif pleidleisiau etholiad a sut cânt eu trefnu, gan ystyried y math o etholiadau ac amrywiaeth o amgylchiadau perthnasol.

Papur pleidleisio rhanbarthol

Golwg gyffredinol

3.21 Roedd un mater wedi dod i'r fei ar y diwrnod pleidleisio ei hun mewn perthynas â'r papur pleidleisio rhanbarthol. Roedd fformat y papur pleidleisio rhanbarthol wedi cael ei ddiwygio ar gyfer etholiad 2011, er mwyn iddo gynnwys enwau'r pleidiau gwleidyddol a oedd wedi enwebu ymgeiswyr, ynghyd ag unrhyw ymgeiswyr rhanbarthol unigol a oedd yn sefyll, ond nid enwau ymgeiswyr rhanbarthol y pleidiau. Serch hynny, roedd yn rhaid arddangos enwau'r ymgeiswyr rhanbarthol yn y gorsafoedd pleidleisio er mwyn i bleidleiswyr allu eu gweld.

3.22 Roedd y mater a gododd ar y diwrnod pleidleisio yn deillio o'r ffaith nad oedd rhai Swyddogion Canlyniadau wedi arddangos enwau'r ymgeiswyr rhanbarthol yn ddigon clir mewn gorsafoedd pleidleisio. Eglurir cefndir y mater isod.

Y Cefndir

3.23 Yn etholiad y Cynulliad yn 2007, roedd maint y papur pleidleisio rhanbarthol wedi achosi problemau. Gall pleidiau enwebu hyd at 12 o ymgeiswyr ar restri rhanbarthol ac mewn rhai rhanbarthau etholiadol roedd hyd at 13 plaid yn enwebu ymgeiswyr, ac felly roedd y papurau pleidleisio rhanbarthol yn hir iawn yn 2007. Roedd hyn wedi achosi problemau i bleidleiswyr, a oedd yn teimlo bod y papurau pleidleisio yn anhylaw ac yn lletchwith i'w llenwi, eu plygu a'u rhoi ym mlychau pleidleisio'r orsaf bleidleisio ac yn anodd eu plygu a'u rhoi mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post. Adeg cyfrif y papurau pleidleisio, roedd y papurau yr un modd anhylaw i staff y cyfrif eu hagor a'u gwastatáu eto. Roedd hyn yn arafu'r broes cyfrif.

3.24 Ar ôl etholiad y Cynulliad yn 2007, gwnaethom ddau argymhelliad i Ysgrifennydd Gwladol Cymru.[18] Ein hargymhelliad cyntaf oedd y dylai nifer yr ymgeiswyr a fyddai'n gymwys i fod ar restr plaid ddisgyn o 12 i chwech. Roeddem wedi nodi bod y gallu i enwebu 12 ymgeisydd wedi cael ei etifeddu o etholiadau blaenorol pan roedd hi'n bosibl i ymgeiswyr sefyll yn yr etholiadau rhanbarthol ac etholaeth ar yr un pryd. Roedd hyn wedi cael ei wahardd erbyn etholiad y Cynulliad yn 2007 ac ar ôl hynny.[19] Caiff pedwar ymgeisydd eu hethol ym mhob rhanbarth etholiadol. Roeddem wedi rhesymu nad oedd bellach angen enwebu 12 ymgeisydd a bod chwech yn ddigon i lenwi unrhyw swyddi gwag achlysurol a allai godi mewn rhanbarthau rhwng etholiadau cyffredinol y Cynulliad (nid oes darpariaeth ddeddfwriaethol ar gyfer is-etholiadau rhanbarthol[20]).

3.25 Ein hail argymhelliad oedd y dylid adolygu dyluniad y papur pleidleisio, er mwyn ceisio ei wneud yn llai a'r dyluniad a ragnodir yn y ddeddfwriaeth.

3.26 Nid oedd yr holl brif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru yn cytuno'n unfrydol â'n hargymhelliad cyntaf. Oherwydd hyn, ac oherwydd ei fod yn galw am ddiwygiad arall i ddeddfwriaeth sylfaenol, edrychodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar atebion eraill, yng nghyd-destun mynd â'n hail argymhelliad rhagddo.

3.27 Gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru am safbwyntiau cynrychiolwyr Swyddogion Canlyniadau, rheolwyr gwasanaethau etholiadol, pleidiau gwleidyddol a'r Comisiwn ynghylch dyluniad y papur pleidleisio rhanbarthol. Cafwyd cynnig i dynnu enwau'r ymgeiswyr rhestr plaid oddi ar y papur pleidleisio rhanbarthol. Nid oedd unrhyw blaid yn gwrthwynebu'r cynnig hwnnw ac felly cafodd y papur pleidleisio rhanbarthol diwygiedig, a oedd yn bodloni ein

[18] Y Comisiwn Etholiadol, *Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007* (Gorffennaf 2007).
[19] Adran 7 (5) a (6), Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[20] Adran 11, Ddeddf Llywodraeth Cymru.

hargymhellion ymarfer da ar fformatau hygyrch,[21] ei ragnodi mewn deddfwriaeth.[22]

3.28 Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod rhestr o enwau'r ymgeiswyr yn cael ei harddangos tu mewn a thu allan i orsafoedd pleidleisio.[23] Roedd hyn yn golygu y dylai pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio allu gweld enwau'r ymgeiswyr ar restri pleidiau, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd y llawlyfrau roeddem wedi'u hargraffu ar gyfer staff gorsafoedd bleidleisio yn rhoi cyfarwyddyd ar arddangos y rhestr hon, a oedd yn rhan o 'ddatganiad ynghylch y personau a enwebwyd'.[24]

Problemau mewn gorsafoedd pleidleisio ac i bleidleiswyr drwy'r post

3.29 Yn gynnar ar y diwrnod pleidleisio cawsom adroddiadau gan un blaid wleidyddol ac ymgeisydd etholiad rhanbarthol nad oedd y rhestri yn cael eu harddangos mewn gorsafoedd pleidleisio mewn rhai ardaloedd. Gwnaethom ffonio'r holl Swyddogion Canlyniadau a chawsom wybod nad oedd yr hysbysiadau wedi cael eu harddangos yn yr etholaethau yng Nghaerdydd, Abertawe, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Llwyddodd Caerdydd, Abertawe a Bro Morgannwg i ddatrys y sefyllfa yn gyflym drwy anfon hysbysiadau i'r gorsafoedd a chawsant eu harddangos yn yr ardaloedd hynny erbyn canol y bore ar y diwrnod pleidleisio. Cafodd y sefyllfa ei datrys yn nes ymlaen yn ystod y diwrnod ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

3.30 Cawsom hefyd adroddiadau o rai ardaloedd eraill nad oedd yr hysbysiadau a oedd yn dangos enwau'r ymgeiswyr rhanbarthol yn cael eu harddangos yn gyson dda mewn gorsafoedd pleidleisio; bod maint yr hysbysiadau yn rhy fach, neu fod maint y ffont yn rhy fach. Rydym yn argymell bod hysbysiadau'r gorsafoedd pleidleisio yn cael eu hargraffu ar bapur A2 mawr neu, os nad yw hynny'n ymarferol, A3 o leiaf, gyda maint ffont hawdd ei ddarllen.

3.31 Roedd nifer fach o bleidleiswyr drwy'r post wedi cysylltu â ni hefyd yn cwyno mai'r unig ffordd iddynt allu cael gafael ar enwau ymgeiswyr y rhestr ranbarthol oedd drwy edrych ar hysbysiadau mewn mannau cyhoeddus neu ar wefannau awdurdodau lleol.

3.32 Yn yr adborth a gafwyd ar ôl yr etholiad, roedd Swyddogion Canlyniadau a rheolwyr gwasanaethau etholiadol o'r farn, ac eithrio'r mater ynghylch arddangos enwau ymgeiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, bod y papur pleidleisio

---

[21] Y Comisiwn Etholiadol, *Making Your Mark. Good practice guidance for designing voter materials: guidance for electoral administrators* (2009).
[22] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010.
[23] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2007, At 5, Rheol 37(17).
[24] Y Comisiwn Etholiadol, *Llawlyfr ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio, cefnogi'r refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol Senedd y Deyrnas Unedig ac etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru,* tudalen 9 (2011).

rhanbarthol yn well o lawer o ran hwylustod i bleidleiswyr ei ddefnyddio ac o ran gweinyddu'r cyfrif. Am y tro cyntaf mewn etholiad Cynulliad, ni chawsom unrhyw gwynion gan bleidleiswyr am ddefnyddioldeb y papur pleidleisio rhanbarthol.

3.33 Cawsom hefyd adborth gan gynrychiolwyr o'r prif bedair plaid wleidyddol ar ôl yr etholiad, a oedd yn cydnabod manteision ac anfanteision dyluniad diweddaraf y papur pleidleisio rhanbarthol.

Dyluniad y papur pleidleisio rhanbarthol yn y dyfodol

3.34 Yn dilyn y profiad yn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2011, daethom i'r casgliad y dylid ailystyried a ddylid cynnwys enwau ymgeiswyr ar y papur pleidleisio rhanbarthol ai peidio. Serch hynny, mae'n briodol aros am ragor o ddatblygiadau perthnasol yn gyntaf. Am y rhesymau a nodir isod, rydym yn credu ei bod yn rhy gynnar gwneud rhagor o waith ar y papur pleidleisio rhanbarthol.

3.35 Yn gyntaf, caiff etholiadau nesaf y Cynulliad eu cynnal yn 2016. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'n hysbys eto a fydd etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cyfuno ag etholiadau lleol ledled Cymru, sydd hefyd yn cael eu trefnu ar gyfer y dyddiad hwnnw. Efallai y bydd etholiadau hefyd yn cael eu cynnal ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau. Mae nifer a math yr etholiadau a gynhelir ar yr un diwrnod yn effeithio ar faint o wybodaeth a pha fath o wybodaeth sydd ei hangen ar bleidleiswyr.

3.36 Ar ben hynny, yn sgil canlyniadau etholiad y Cynulliad pan gollodd rhai Aelodau Cynulliad uchel eu proffil eu seddi o ganlyniad i sytem etholiadol y Cynulliad, roedd rhai gwleidyddion wedi codi cwestiynau am y system etholiadol a gwahardd ymgeiswyr rhag sefyll mewn etholiadau etholaeth a rhanbarthol hefyd. Bydd angen penderfynu ar unrhyw newidiadau posibl cyn newid dyluniad y papur pleidleisio rhanbarthol presennol. Er enghraifft, os codir y gwaharddiad sy'n atal ymgeiswyr rhag sefyll mewn etholiadau etholaeth a rhanbarthol, gallai hynny arwain at gynnydd cyffredinol yn nifer yr ymgeiswyr ar y rhestr ranbarthol. Byddai angen ystyried hynny wrth adolygu dyluniad y papur pleidleisio rhanbarthol.

3.37 Nes caiff y materion hyn eu datrys, byddai'n rhy gynnar penderfynu ar y papur pleidleisio rhanbarthol. Byddwn yn ailedrych ar y mater hwn cyn mis Rhagfyr 2014 ar yr hwyraf. Byddwn yn gofyn am ragor o safbwyntiau ac yn cyflwyno unrhyw argymhellion angenrheidiol i Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn da bryd i gael penderfyniad o leiaf blwyddyn cyn etholiad y Cynulliad yn 2016. Byddai hynny'n rhoi o leiaf chwe mis cyn etholiad 2016 ar gyfer rhagnodi unrhyw newid i'r papur pleidleisio mewn deddfwriaeth.

Gwahardd dau ymgeisydd a etholwyd

3.38 Cododd fater ar ôl yr etholiad a gafodd lawer iawn o sylw cyhoeddus. Roedd hefyd yn destun ymchwiliad gan yr heddlu a Chynulliad Cenedlaethol

Cymru. Yn dilyn yr etholiad daeth i'r amlwg nad oedd dau unigolyn a etholwyd yn Aelodau Cynulliad wedi bod yn ymwybodol nad oeddent yn gymwys i sefyll i'w hethol oherwydd swyddi a oedd ganddynt, a oedd yn golygu eu bod wedi'u gwahardd. Caiff yr amgylchiadau eu disgrifio isod.

Golwg gyffredinol

3.39 Etholwyd dau ymgeisydd o blith y Democratiaid Rhyddfrydol yn Aelodau Cynullaid drwy'r rhestr ranbarthol, John Dixon yng Nghanol De Cymru ac Aled Roberts yng Ngogledd Cymru. Ar 17 Mai, cawsant eu hysbysu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru nad oeddent wedi eu hethol yn ddilys fel Aelodau Cynulliad pan ddaeth i'r amlwg bod y ddau yn aelodau o gyrff a restrir o dan Orchymyn Cynulliad Cendlaethol Cymru (Gwaharddiad) 2010. Roedd Mr Dixon yn aelod o Gyngor Gofal Cymru ac roedd Mr Roberts yn aelod a Dribiwnlys Prisio Cymru.

3.40 Adeg yr enwebiad, roedd y ddau wedi llofnodi ffurflenni 'Cydsynio i'r Enwebu', yn nodi nad oeddent hyd eithaf eu gwybodaeth a'u cred wedi'u gwahardd rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Mae gwneud datganiad ffug yn fwriadol ynghylch eu cymhwysedd i gael eu hethol yn drosedd.

3.41 Yn fuan ar ôl i'r gwaharddiadau ddod yn wybodaeth gyhoeddus, cyflwynodd John Bufton ASE, UKIP, gŵyn ffurfiol i'r heddlu. Dechreuodd Heddlu De Cymru ymchwilio i'r ddau achos ar 19 Mai. Ar 23 Mehefin, cyhoeddodd Gwasanaeth Erlyn y Goron na fyddai John Dixon nac Aled Roberts yn cael eu herlyn am unrhyw drosedd a oedd yn deillio o'u henwebu a'u hethol yn Aelodau Cynulliad a hwythau wedi'u gwahardd.

3.42 Gofynnodd Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, Rosemary Butler AC, i'r Cynulliad ymchwilio i'r amgylchiadau perthnasol cyn gynted ag y daeth y gwaharddiad i'r amlwg ar 17 Mai. Roedd yn rhaid dal yr ymchwiliad hwnnw yn ôl pan oedd ymchwiliad yr heddlu yn mynd rhagddo. Ar 24 Mehefin, ar ôl i Wasanaeth Erlyn y Goron gyhoeddi na fyddai unrhyw erlyniadau troseddol, ailddechreuwyd ymchwiliadau y Llywydd a chafodd ei symud ymlaen gan Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad, Gerard Elias, CF.

3.43 Canlyniad hyn oedd adroddiad a ddosbarthwyd i Aelodau Cynulliad ac a gyhoeddwyd ar 5 Gorffennaf. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod Aled Roberts wedi cymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau ei fod yn gymwys i sefyll i'w ethol, ond ei fod wedi cael gwybodaeth anghywir yn fersiwn Cymraeg cyfarwyddyd y Comisiwn i ymgeiswyr sy'n sefyll i'w hethol. Byddai'r wybodaeth honno wedi gwneud iddo gredu ei fod yn gymwys i sefyll am etholiad. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod John Dixon wedi darllen fersiwn Saesneg y Comisiwn o'r cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll i gael eu hethol (nad oedd yn cynnwys unrhyw wallau), ond nad oedd wedi gwirio sut roedd y Gorchymyn Gwahardd yn berthnasol iddo ef. Roedd yn credu ei fod yn gymwys i fod yn aelod o'r Cynulliad.

3.44 Mae gan y Cynulliad bŵer cyfreithiol i benderfynu bod modd diystyru gwaharddiad unrhyw unigolyn os yw'n ymddangos bod y rheswm dros y

gwaharddiad wedi mynd a'i bod yn briodol penderfynu hynny.[25] Cafodd cynigion i adfer Aled Roberts a John Dixon eu cyflwyno yn y Cynulliad gan y Democratiaid Rhyddfrydol cyn diwedd yr ymchwiliad. Ymddiswyddodd y ddau o'r cyrff a oedd yn eu gwahardd rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Ar ôl cyhoeddi adroddiad Gerard Elias, tynnodd y Democratiaid Rhyddfrydol y cynnig i ddiystyru gwaharddiad John Dixon yn ôl. Ar 6 Gorffennaf, pleidleisiodd y Cynulliad i ddiystyru gwaharddiad Aled Roberts ac ailgydiodd yn ei swyddogaeth fel Aelod Cynulliad.

3.45 Pan ddaeth y gwaharddiad i'r amlwg ar 17 Mai, roedd yn golygu bod yr etholiadau yn ddi-rym a bod y ddwy sedd ranbarthol yn wag.[26] Caiff swyddi gwag ar gyfer Aelodau Cynulliad rhanbarthol eu llenwi drwy symud at yr unigolyn nesaf ar restr y blaid wleidyddol berthnasol o ymgeiswyr a enwebwyd.[27] Rhoddodd Llywydd y Cynulliad wybod i'r ddau Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol perthnasol bod y seddi yn wag ar 27 Mai. Serch hynny, gofynnodd fod y ddau Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol, pan fyddent mewn sefyllfa i roi gwybod iddi am yr enwau, yn ei holi am y sefyllfa ddiweddaraf mewn perthynas â'r swyddi gwag, yn unol â'r weithdrefn a awgrymwyd gan y Comisiwn Etholiadol. Oherwydd ei bod yn hysbys bod y Cynulliad yn ystyried diystyru'r gwaharddiadau, roeddem wedi cynghori y gallai'r ddau Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol baratoi i lenwi'r seddi gwag ond iddynt beidio â gwneud hynny nes i'r Cynulliad benderfynu, ar yr amod nad oedd gormod o oedi.

3.46 Adeg tynnu cynnig y Cynulliad i ddiystyru gwaharddiad John Dixon yn ôl, aeth y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yng Nghanol De Cymru yn ei flaen i lenwi'r sedd wag ranbarthol. Daeth Eluned Parrott, yr ail ymgeisydd a enwebwyd ar restr ranbarthol y Democratiaid Rhyddfrydol, yn Aelod Cynulliad ar 6 Gorffennaf.

3.47 Mae rhagor o wybodaeth am gefndir y digwyddiadau hyn isod.

Gorchymyn Gwahardd y Cynulliad

3.48 Er mwyn sefyll mewn etholiad, rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i sefyll (er enghraifft, yn 18 oed neu'n hŷn ac yn bodloni meini prawf penodol) ac ni ddylent fod wedi'u gwahardd. Nid yw ymgeisydd yn gymwys i sefyll mewn etholiad os yw:

- yn farnwr
- yn was sifil
- yn aelod o'r lluoedd arfog
- yn aelod o'r heddlu

---

[25] Adran 17(3) Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Ni fyddai penderfyniad o'r fath yn dod i rym pe ceid ymgeisydd yn euog o ymarfer llwgr.
[26] Adran 18, Deddf Llywodraeth Cymru 2006.
[27] Rheol 78, Atodlen 5, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.

- yn aelod o ddeddfwrfa unrhyw sir neu diriogaeth tu allan i'r Gymanwlad (ar wahân i Iwerddon)
- yn cael ei gyflogi fel aelod o staff yn y Cynulliad
- yn dal swydd a restrir yng Ngorchymyn Gwahardd Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn interim

3.49 Gall unigolyn hefyd fod wedi'i wahardd os cafwyd ef yn euog o ymarfer llwgr neu anghyfreithlon gan lys etholiadol.

3.50 Mae Gorchmynion Gwahardd yn cynnwys rhestr o gyrff a sefydliadau. Roedd y Cynulliad wedi cymeradwyo Gorchymyn Gwahardd newydd ar 1 Rhagfyr 2010, a gymeradwywyd wedi hynny gan y Cyfrin Gyngor ar 15 Rhagfyr a daeth i rym ar 11 Ionawr 2011. Roedd hwn yn disodli'r Gorchymyn Gwahardd a wnaed yn 2006.

3.51 Roedd Cyngor Gofal Cymru, sef y corff lle'r oedd gan John Dixon swydd, wedi'i restru yng Ngorchmynion 2006 a 2010.

3.52 Roedd Tribiwnlys Prisio Cymru, sef y corff lle'r oedd gan Aled Roberts swydd, wedi'i gynnwys yng Ngorchymyn newydd 2010 ond nid yng Ngorchymyn 2006.

Rhoi Cyhoeddusrwydd i Orchymyn Gwahardd 2010

3.53 Fel y nodwyd yn adroddiad Mr Elias i Aelodau Cynulliad, pan gafodd y Gorchymyn Gwahardd newydd ei wneud, nid oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru (fel yr oedd ar y pryd) wedi gwneud dim byd i roi cyhoeddusrwydd i Orchymyn 2010 na'r ffaith ei fod wedi dod i rym. Dywedodd Mr Elias na fu unrhyw gyfathrebu ffurfiol â'r Comisiwn Etholiadol bod y Gorchymyn wedi cael ei gymeradwyo na'i fod wedi dod i rym; ni fu dim ymgynghori â'r Tribiwnlys Prisio (nac unrhyw gorff arall a restrwyd) ynghylch ei gynnwys yn y Gorchymyn; ac nid oedd y Tribiwnlys wedi cael gwybod yn ffurfiol ei fod wedi cael ei restru.

3.54 Yn y gorffennol rydym wedi dibynnu ar lywodraethau ledled y DU i roi gwybod i ni ymlaen llaw am newidiadau i unrhyw ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar etholiadau ac i roi gwybod i ni pan fydd deddfwriaeth yn cael ei chwblhau, p'un ai a yw'r gyfraith yn mynnu yr ymgynghorir â ni ai peidio. Dyma oedd y tro cyntaf i hyn beidio â digwydd ers i ni gael ein creu yn 2000. Rydym yn cyhoeddi cyfarwyddyd i'r rheini sy'n sefyll i gael eu hethol ac i'r rheini sy'n darparu etholiadau. Caiff ein cyfarwyddyd ei baratoi ymhell cyn cynnal etholiadau a phan ddisgwylir y bydd unrhyw ddeddfwriaeth newydd berthnasol yn dod i rym, byddwn yn drafftio gan ddisgwyl unrhyw newidiadau er mwyn i ni allu cyhoeddi cyfarwyddyd newydd cyn gynted ag y bydd y gyfraith newydd yn cael ei gwneud.

3.55 Mae Grŵp Cynllunio Etholiadau Cymru yn fforwm cynllunio, sy'n cael ei gadeirio a'i gynnull gan swyddogion Llywodraeth Cymru, ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr Swyddogion Canlyniadau, gweinyddwyr etholiadol, pleidiau

gwleidyddol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Comisiwn. Ei fwriad yw bod yn fforwm i rannu gwybodaeth am gamau gweithredu allweddol a gymerir ac a gynigir, yn ogystal â hybu ymarfer da. Byddai rhoi gwybod i gynrychiolwyr Grŵp Cynllunio Etholiadau Cymru ynghylch gwneud Gorchymyn 2010 wedi sicrhau bod uwch swyddogion yr holl sefydliadau allweddol dan sylw a oedd yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad yn gwybod am y rheolau newydd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhannu gwybodaeth am bob deddfwriaeth berthnasol sydd ar y gweill gyda Grŵp Cynllunio Etholiadau Cymru yn y dyfodol.

3.56 Serch hynny, yn dilyn y profiad gyda'r Gorchymyn Gwahardd, rydym eisoes wedi rhoi mesurau gwahanol ar waith i sicrhau bod ein cyfarwyddyd yn gywir adeg cyhoeddi, ni waeth a ydym yn cael gwybod am newidiadau sydd ar ddod i ddeddfwriaeth berthnasol ai peidio.

Ein cyfarwyddyd

3.57 Rydym yn rhoi cyfarwyddyd i ddarpar ymgeiswyr ac i asiantau ar y rheolau ar gyfer sefyll yn etholiadau'r Cynulliad, ac roedd y cyfarwyddyd hwn ar gael ar ein gwefan. Cafodd copïau wedi'u hargraffu o'r cyfarwyddyd yn Gymraeg a Saesneg hefyd eu hanfon at Swyddogion Canlyniadau i'w defnyddio wrth friffio ymgeiswyr lleol. Roedd copi o'r cyfarwyddyd a oedd wedi'i argraffu ar gael ar ein gwefan.

3.58 Roedd ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr yn cynnwys modiwl o'r enw 'Allwch chi sefyll mewn etholiad?'. Roedd y fersiwn o'r cyfarwyddyd ar y wefan yn cynnwys hyperddolen i'r Gorchymyn Gwahardd. Yn wreiddiol roedd hon yn arwain at Orchymyn 2006 (yr hen orchymyn). Cawsom wybod gan swyddogion Llywodraeth Cymru am Orchymyn newydd 2010 ar 10 Mawrth ac ar 11 Mawrth cafodd yr hyperddolen yn ein fersiwn Saesneg o'r cyfarwyddyd ei newid i arwain at Orchymyn 2010. Ar 24 Mawrth, roeddem wedi cyhoeddi nodyn gwall yn Saesneg i Swyddogion Canlyniadau i'w ddefnyddio gyda chopïau caled y cyfarwyddyd roeddem wedi'i anfon atynt. Serch hynny, er bod yr angen i ddiweddaru'r hyperddolen yn y fersiwn Cymraeg o'r cyfarwyddyd wedi cael ei gydnabod, roedd gwall yn golygu na chafodd hynny ei wneud. Roedd hyn yn golygu bod yr hyperddolen yn y fersiwn Cymraeg yn dal i arwain at hen Orchymyn 2006.

3.59 Daeth hyn yn bwysig yn achos Aled Roberts. Dywedodd Mr Elias fod Mr Roberts wedi dweud iddo edrych ar gyfarwyddyd Cymraeg y Comisiwn a anfonwyd ato gan wasanaethau etholiadol Sir Ddinbych ar 24 Mawrth drwy gyfrwng e-bost gyda dolenni i'r cyfarwyddyd ar-lein ar wefan y Comisiwn. Roedd y cyfarwyddyd hwn yn dal i gynnwys dolen i Orchymyn Gwahardd 2006. Daeth Mr Elias i'r casgliad ei bod yn amlwg y byddai'r fersiwn Cymraeg yn dal wedi bod yn arwain yn anghywir at Orchymyn 2006 ar yr adeg honno. Daeth i'r casgliad hefyd na allai'r Comisiwn gadarnhau na gwadu a oedd unrhyw un wedi edrych ar ei dudalennau gwe ar y diwrnod hwnnw ai peidio.

Ein hymddiheuriad

3.60 Ar ôl i'r Cynlluniad ystyried adroddiad Mr Elias, cyhoeddasom ddatganiad ar 5 Gorffennaf. Gwnaethom ymddiheuro i'r Cynulliad ac i Aled Roberts am ein camgymeriadau a chyhoeddi datganiad cyhoeddus, gan ddweud:

> Mae'n bwysig bod yr holl ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol yn gywir a bod ymddiriedaeth ynddynt, ac fel mae'r adroddiad heddiw yn nodi gwnaethpwyd camgymeriadau gan y Comisiwn yn cyhoeddi ein canllawiau ar gyfer yr etholiad Mai 2011.
>
> Mae'r gyfraith yn mynnu bod ymgeiswyr yn sefyll ar gyfer etholiad yn sicrhau eu bod yn gymwys i gael eu henwebu. Rhaid i bob ymgeisydd lofnodi a chyflwyno datganiad yn dweud eu bod yn gymwys i sefyll etholiad. Mae'n hanfodol bod ymgeiswyr a phleidiau yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol cywir a bod proses ar waith o fewn pob plaid i sicrhau bod y gwiriadau priodol yn cael eu gwneud.
>
> Unwaith i'r Comisiwn ddod yn ymwybodol o'r newid i'r Gorchymyn, diweddarwyd y canllawiau iaith Saesneg perthnasol i ymgeiswyr "Can you stand for election?" y diwrnod canlynol (11 Mawrth) ar ein gwefan, a oedd yn dal i fod ymhell cyn y terfyn amser ar gyfer enwebiadau fel ymgeiswyr ar 4 Ebrill.
>
> Fodd bynnag, ni ddiweddarwyd fersiwn Cymraeg y canllawiau i ymgeiswyr cyn yr etholiad. Rydym yn gresynu ac yn ymddiheuro am y camgymeriad prin iawn hwn, ac rydym wedi adolygu ein prosesau mewnol i sicrhau na fydd y fath gamgymeriad yn digwydd yn y dyfodol.
>
> Y Comisiwn Etholiadol, 5 Gorffennaf 2011

3.61 Rydym wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers y digwyddiad hwn ac rydym yn falch o weithredu cyfres o argymhellion a wnaethant ar ein cyfer ym mis Medi 2011. Mae'r rhain yn cynnwys gwella ein prosesau ar gyfer delio â dogfennau a chyfarwyddyd yn Gymraeg, er mwyn osgoi unrhyw anawsterau yn y dyfodol. Yn benodol, rydym wedi mynd ati'n drwyadl i ddiwygio ein prosesau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ar-lein ar ein gwefan.

Defnydd o'n gwefan

3.62 Ar 9 Awst 2011, gwnaethom gyhoeddi ein hateb ysgrifenedig ar ein gwefan i ymholiad penodol a gafwyd gan unigolyn am ymweliadau â'n tudalennau cyfarwyddyd ar-lein ar gyfer ymgeiswyr a oedd yn bwriadu sefyll mewn etholiad i'r Cynulliad. Mae darnau perthnasol o'n llythyr wedi'u cyhoeddi isod.[28] Mae

[28] www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/our-views

testun llawn y llythyr yn cynnwys gwybodaeth am gronoleg y digwyddiadau, sydd eisoes wedi cael ei ddisgrifio yn yr adroddiad hwn.

> Mae gennym declyn i ddadansoddi ein gwefan o'r enw 'WebTrends'. Byddwn yn defnyddio hwn yn rheolaidd i fesur ac i ddehongli ymddygiad defnyddwyr ar wefan y Comisiwn.
>
> Nid oedd WebTrends wedi cofrestru unrhyw ymweliadau nac achosion o lwytho i lawr o fersiwn Cymraeg ein cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac i asiantau a oedd yn cynnwys dolen i'r Gorchymyn Gwahardd, ar 24 Mawrth 2011 nac ar unrhyw adeg yn dilyn cyhoeddi'r cyfarwyddyd ar ein gwefan ar 21 Chwefror, hyd at ac yn cynnwys 4 Mai....
>
> Rhwng 15-17 Mehefin rhoesom wybodaeth i'r heddlu, ar ôl defnyddio'r meddalwedd WebTrends i adfer nifer yr ymweliadau / llwytho i lawr ar ein gwefan ar gyfer tudalennau i ymgeiswyr sy'n ceisio cael eu hethol i'r Cynulliad, dros gyfnod penodol. Roedd yr wybodaeth a roddwyd i'r heddlu yn cynnwys esboniad byr o'r hyn gallai WebTrends ei adfer, ynghyd â 'chipluniau' o ddogfennau penodol dros gyfnodau penodedig....
>
> Rhoesom grynodeb o'r wybodaeth roeddem wedi'i rhoi i'r heddlu am ymweliadau / llwytho i lawr ar gyfer dogfennau perthnasol ar ein gwefan i Mr Elias. Gwnaethom grynhoi nifer yr ymweliadau / llwytho i lawr ond ni wnaethom ddarparu copïau o'r holl 'gipluniau'....
>
> Mater i'r heddlu/Gwasanaeth Erlyn y Goron a Mr Elias wrth gwrs oedd ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a oedd ar gael iddynt oddi wrth unigolion a chyrff a chyrraedd eu casgliadau. Gwnaethom egluro iddynt mai teclyn dadansoddi yw WebTrends ac nid teclyn fforensig, ac felly nid oeddem wedi gwneud unrhyw gasgliadau o'r dadansoddiad. Roeddem wedi egluro na allwn ddarparu dadansoddiad pendant na therfynol ynghylch y defnydd a wneir o'n gwefan, drwy ddefnyddio'r teclynnau gwefan sydd ar gael i ni. Fel gwnaethom ddweud adeg cyhoeddi adroddiad Mr Elias, rydym yn derbyn casgliadau Mr Elias yn llawn ac nid oes gennym ddim byd i'w ychwanegu at yr hyn rydym eisoes wedi'i ddweud am yr adroddiad.
>
> Y Comisiwn Etholiadol, 9 Awst 2011

4 Ymgyrchu yn yr etholiad

4.1 Mae'r bennod hon yn adolygu'r materion a gododd o'r ymgyrchu etholiadol. Byddwn yn rhoi gwybodaeth am nifer yr ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol a oedd yn ymgyrchu, enwebiadau ymgeiswyr, cyfarwyddyd a chefnogaeth a materion rheoleiddio.

Ffeithiau a ffigurau

4.2 Ymgyrchodd 176 o ymgeiswyr etholaethol i gael eu hethol yn 2011 ac roedd 13 o bleidiau gwleidyddol wedi enwebu rhestri o ymgeiswyr rhanbarthol. Roedd hyn 21 yn llai o ymgeiswyr etholaethol a thri yn llai o bleidiau gwleidyddol nag yn etholiadau'r Cynulliad yn 2007, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 6: Ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol yn sefyll yn yr etholiad

Nifer yr ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol	2007	2011
Ymgeiswyr etholaethol	197	176
Pleidiau gwleidyddol ar restri rhanbarthol	16	13
Ymgeiswyr annibynnol ar restri rhanbarthol	5	1

4.3 O nifer yr ymgeiswyr a'r rhestri rhanbarthol a enwebwyd gan bleidiau gwleidyddol, mae'r patrymau canlynol yn amlwg:

- Roedd y Ceidwadwyr, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru wedi enwebu ymgeiswyr ym mhob un o 40 etholaeth y Cynulliad a phob un o'r pum rhanbarth etholiadol.
- Roedd tair plaid arall, y Blaid Genedlaethol Brydeinig, Democratiaid Lloegr a'r Blaid Werdd, wedi enwebu ymgeiswyr mewn etholiadau etholaethol a rhanbarthol, ond nid ym mhob etholaeth neu ranbarth.
- Nid oedd Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (UKIP) wedi enwebu unrhyw ymgeiswyr etholaethol yn 2011, o'i gymharu â 13 yn 2007. Roeddent yn canolbwyntio ar yr etholiadau rhanbarthol yn lle hynny.
- Yn ogystal â'r pedair prif blaid wleidyddol, roedd pum plaid arall wedi enwebu ymgeiswyr etholaethol, yr un fath ag yn 2007.
- Yn ogystal â'r pedair prif blaid wleidyddol, roedd naw plaid arall wedi enwebu ymgeiswyr rhanbarthol, a oedd wedi disgyn o 16 yn 2007.

Enwebiadau ymgeiswyr

4.4 Er mwyn sefyll etholiad mewn etholaeth, gall ymgeisydd enwebu ei hun drwy lenwi a llofnodi ffurflen enwebu, neu mae modd i danysgrifiwr lofnodi'r ffurflen. Rhaid i ymgeiswyr hefyd gydsynio'n ffurfiol i'r enwebiad drwy lofnodi ffurflen, gan ddatgan eu bod yn ymwybodol o'r hyn a fyddai'n eu gwahardd yn gyfreithiol rhag bod yn ymgeisydd a'u bod yn gymwys i fod yn Aelod o'r Cynulliad.

4.5 Caiff ymgeiswyr rhanbarthol eu henwebu ar restri a gyflwynir gan bleidiau gwleidyddol a rhaid i'r ymgeiswyr hefyd gydsynio'n ffurfiol i'r enwebiad drwy lofnodi ffurflen.

4.6 Rhaid i ymgeiswyr etholaeth, ymgeiswyr rhanbarthol annibynnol a rhestri rhanbarthol gyflwyno ernes o £500 i'r Swyddog Canlyniadau perthnasol. Os bydd yr ymgeisydd neu'r blaid yn cael mwy na 5% o'r pleidleisiau dilys yn yr etholaeth neu'r rhanbarth, bydd yr ernes yn cael ei dychwelyd i'r sawl a'i rhoddodd.

4.7 Roedd y Comisiwn wedi darparu templedi ffurflenni enwebu ymgeisydd a ffurflenni cydsynio i'r enwebu, ynghyd ag adnoddau eraill megis rhestri gwirio ar gyfer ymgeiswyr ac asiantau i'w helpu i gwblhau enwebiadau. Cafodd y rhain eu defnyddio'n helaeth a chawsant eu croesawu, gan eu bod yn helpu i sicrhau bod dull cyson yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru.

4.8 Roedd Swyddogion Canlyniadau wedi cynnig a chynnal cyfarfodydd briffio gydag ymgeiswyr ac asiantau i ddatrys unrhyw anawsterau cyn enwebu, ac roedd cynrychiolwyr o'r heddlu hefyd yn bresennol yn aml i gynghori ar faterion sy'n ymwneud â hygrededd etholiadol. Serch hynny, mae Swyddogion Canlyniadau a'r heddlu wedi dweud wrthym nad oedd llawer yn bresennol mewn cyfarfodydd briffio ymgeiswyr, ac ambell waith roedd mwy o Swyddogion Canlyniadau a swyddogion heddlu yn y cyfarfodydd nag ymgeiswyr ac asiantau, neu roedd cyfarfodydd yn cael eu canslo.

4.9 Rydym yn dal i annog ymgeiswyr, asiantau a phleidiau i fynychu cyfarfodydd briffio a gynigir gan Swyddogion Canlyniadau i sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth am y broses enwebu a gofynion y gyfraith. Byddwn yn mynd ati gyda Swyddogion Canlyniadau a phleidiau gwleidyddol i ystyried beth arall ellid ei wneud i wella sesiynau briffio lleol gydag ymgeiswyr ac asiantau.

Ein cyngor a chyfarwyddyd i ymgeiswyr ac i asiantau

4.10 Ar gyfer digwyddiadau pleidleisio 2011, roedd y Comisiwn wedi cynhyrchu cyfarwyddyd i ymgeiswyr ac i asiantau yn etholiadau'r Cynulliad mewn fformat newydd haws ei ddefnyddio a oedd ar gael ar ein gwefan. Cafodd ei drefnu fel

cyfres o ddogfennau cryno a chysylltiedig sy'n dod yn fwy manwl wrth i'r defnyddiwr symud ymlaen o'r 'Cyflwyniad' tuag at y 'Papurau arbenigol'.

4.11 Mae'r 'Cyflwyniadau' yn berthnasol i bawb, a'r bwriad yw eu bod yn helpu defnyddwyr i ddeall y pwnc a dewis y dogfennau ychwanegol sy'n berthnasol iddynt hwy. Mae'r dogfennau 'Golwg gyffredinol' a 'Sefyllfaoedd a gweithdrefnau' yn rhoi gwybodaeth sy'n ddigon manwl i ddiwallu anghenion y rhan fwyaf o ddarllenwyr. Bwriedir i'r dogfennau hyn arwain defnyddwyr drwy ofynion adrodd, neu i wella eu dealltwriaeth o faterion penodol, prosesau neu ddigwyddiadau etholiadol. Mae'r 'Papurau arbenigol' yn delio â materion sy'n fwy cymhleth.

4.12 Gwnaethom hefyd gyfuno'r dogfennau allweddol o'r gyfres o gyfarwyddiadau i ymgeiswyr ac i asiantau mewn un gyfrol a'i darparu ar ffurf copi caled i'r Swyddogion Canlyniadau i'w dosbarthu i ymgeiswyr ac i asiantau ar lefel leol. Roedd yr archebion ar gyfer fersiynau copi caled o'r cyfarwyddyd yn amrywio, gyda rheolwyr gwasanaethau etholiadol mewn pum awdurdod lleol yn archebu 50 fersiwn Saesneg yr un a phump yn archebu dim ond 10; un awdurdod lleol yn archebu 50 fersiwn Cymraeg a 15 yn archebu 10 neu lai. Er bod rhywfaint o gysylltiad rhwng niferoedd yr etholaethau mewn awdurdodau lleol a'r niferoedd a archebwyd, dim ond yn rhannol mae maint i'w gyfrif am yr amrywiad. Byddwn yn rhoi rhagor o ystyriaeth i ddarparu copïau caled o gyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau ar gyfer eu defnyddio'n lleol.

4.13 Cawsom adborth ar ein cyfarwyddyd yn ei fformat newydd drwy ein harolwg i ymgeiswyr ar ôl yr etholiad a drwy gwrdd â'r prif bleidiau gwleidyddol ar ôl yr etholiad. Roeddent yn croesawu'r fformat newydd, ond roedd swyddogion pleidiau sy'n delio â materion cydymffurfio yn teimlo y byddent yn hoffi cael un gyfrol gynhwysfawr a fyddai'n cynnwys ein holl gyfarwyddyd, gyda chyfeiriadau deddfwriaethol. Byddwn yn ystyried sut gallwn ateb y cais hwnnw ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.

4.14 Cododd mater o bwys ar ôl yr etholiad mewn perthynas ag un o fodiwlau ein cyfarwyddyd Cymraeg i ymgeiswyr, ac mae Pennod 3 yn cynnwys manylion hyn.

4.15 Cyn cyfnod yr etholiad roeddem hefyd wedi bod yn bresennol yng nghynadleddau'r prif bleidiau gwleidyddol, wedi mynychu digwyddiadau hyfforddi pleidiau ac wedi cwrdd â phleidiau llai i roi gwybodaeth iddynt am agweddau cyfreithiol ymgyrchu yn yr etholiad, yn enwedig o ran rhoddion a gwariant ymgyrchoedd.

Cyfeiriadau etholiad rhadbost

4.16 Yn etholiad y Cynulliad, mae modd i bob ymgeisydd etholaeth neu ymgeisydd rhanbarthol unigol neu ar ran rhestr plaid o ymgeiswyr rhanbarthol anfon un ohebiaeth etholiad, yn rhad ac am ddim, at bob etholwr neu bob pwynt danfon (cyfeiriad eiddo fel rheol) yn yr etholaeth neu'r rhanbarth etholiadol perthnasol.

4.17 Roedd y Post Brenhinol wedi danfon 16.6 miliwn eitem o ohebiaeth yn ystod cyfnod yr etholiad, a oedd wedi disgyn o 17.2 miliwn eitem yn 2007. Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer yr eitemau a ddosbarthwyd, cododd y costau dosbarthu – tua £3.4 miliwn o'i gymharu â thua £2.7 miliwn yn 2007.[29]

4.18 Yn ein hadroddiad yn 2007 ar etholiadau'r Cynulliad,[30] roeddem wedi nodi nad oedd y pleidiau gwleidyddol yn siŵr ynghylch a allai eu taflenni etholiadol alw ar bobl i bleidleisio ar gyfer ymgeiswyr plaid yn yr etholiad etholaethol ac yn yr etholiad rhanbarthol. Ar yr adeg honno, addawodd y Post Brenhinol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod gohebiaeth radbost etholiadol yn diwallu gofynion cyfreithiol sylfaenol cyn ei danfon, i ystyried cyfarwyddyd manylach yn y maes hwnnw yn y dyfodol. Er bod y Post Brenhinol wedi diwygio ei gyfarwyddyd ar gyfer etholiadau 2011, nid yw'n mynd i'r afael â'r pwynt hwn yn benodol. Roedd yr adborth a gafwyd gan bleidiau penodol a rhai ymgeiswyr yn 2011 yn dangos eu bod yn dal yn ansicr ynghylch a oedd taflenni yn cael cynnwys testun megis 'pleidleisiwch ddwywaith' ar gyfer plaid benodol. [31]

4.19 Rydym wedi cyfeirio'r materion hyn at y Post Brenhinol sydd wedi cytuno i edrych ar ei gyfarwyddyd eto. Byddwn yn mynd ar drywydd hyn gyda'r Post Brenhinol ac yn ceisio sicrhau yr ymgynghorir â'r pleidiau yng Nghymru ynghylch unrhyw ddiwygiadau i'r cyfarwyddyd mewn da bryd cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2016.

Monitro ymgyrchoedd pleidiau

4.20 Fel rhan o'n dull sy'n seiliedig ar risg ar gyfer rheoleiddio cyllid etholiadau a phleidiau, gwnaethom gynnal ymchwil ddesg i fonitro ymgyrchoedd pleidiau yn etholiad y Cynulliad. Diben y gwaith hwn oedd hybu cydymffurfiad drwy gasglu gwybodaeth am ymgyrchoedd y gellid cyfeirio ati wrth wirio ffurflenni statudol. Roedd yr ymchwil yn cynnwys monitro hysbysebion, taflenni a gweithgaredd ar y rhyngrwyd. Byddwn yn adrodd ar unrhyw faterion o ddiddordeb sy'n codi o'r gwaith hwn yn ein hadroddiad ar agweddau ariannol digwyddiadau etholiadol 2011 ddechrau 2012. Erbyn yr adeg honno byddwn wedi derbyn yr holl ffurflenni gwariant ar ymgyrchoedd ar gyfer digwyddiadau etholiadol y DU yn 2011, wedi cwblhau ein gwiriadau ac wedi cwblhau ein casgliadau am faterion gwariant.

Cydymffurfio â rheoliadau gwariant

4.21 Roedd gofyn i bleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn yr etholiadau gydymffurfio â therfynau ar yr hyn y gallent ei wario ar ymgyrchu yn etholiadau'r Cynulliad. Yn achos ymgeiswyr etholaeth, roedd y terfyn yn seiliedig ar swm fesul etholaeth yn ogystal â swm ar gyfer pob etholwr yn yr etholaeth, ac yn

[29] Data gan y Post Brenhinol.
[30] Y Comisiwn Etholiadol, *The Official Report on the National Assembly for Wales elections 3 May 2007* (Gorffennaf 2007).
[31] Adran 65, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2007.

achos pleidiau gwleidyddol, roedd yn seiliedig ar nifer yr etholaethau a'r rhanbarthau lle'r oedd ganddynt ymgeiswyr.

4.22 Ar 1 Medi 2011 cyhoeddasom fanylion ar ein gwefan[32] a oedd yn rhoi'r terfynau perthnasol a faint oedd pleidiau gwleidyddol wedi'i wario, pan roedd eu gwariant dan £250,000. Roedd yn rhaid i'r pleidiau hynny gyflwyno ffurflenni i ni dri mis ar ôl yr etholiad, hynny yw, 5 Awst 2011. Ar 1 Medi roeddem hefyd wedi cyhoeddi manylion gwariant 'trydydd partïon' a oedd yn ymgyrchu yn yr etholiad. Mae 'trydydd partïon' yn golygu mudiadau sy'n ymgyrchu adeg etholiadau o blaid neu yn erbyn plaid, ymgeisydd neu bolisi.

4.23 Ym mis Rhagfyr 2011, byddwn yn cyhoeddi manylion gwariant pleidiau gwleidyddol a wariodd fwy na £250,000. Mae'n rhaid i'r pleidiau hynny gyflwyno ffurflenni i ni chwe mis ar ôl yr etholiad sef 5 Tachwedd 2011. Byddwn yn cyhoeddi'r terfynau a manylion yr hyn y mae ymgeiswyr etholaeth wedi'i wario ym mis Hydref 2011.

Hygrededd etholiadol

4.24 Mewn partneriaeth â Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu, cyhoeddasom fersiynau diwygiedig o'r *Canllawiau ar atal a datgelu camymddygiad etholiadol* i bob heddlu yng Nghymru ym mis Chwefror 2011, yn ogystal â chanllaw poced i swyddogion yr heddlu ar ddyletswydd yn ystod digwyddiadau etholiadol 2011. Cafodd y naill a'r llall eu diwygio i sicrhau eu bod yn addas ar gyfer yr etholiadau a'r refferenda yn 2011. Mae'r canllawiau poced dwyieithog yn rhoi cyngor ymarferol am weinyddu etholiadol i swyddogion yr heddlu er mwyn eu helpu i ddelio ag unrhyw faterion. Mae'r dogfennau hyn yn dal yn rhan o'n hymateb i angen amlwg am ragor o wybodaeth a chefnogaeth i heddluoedd ar y maes arbenigol hwn o'r gyfraith.

4.25 Gwnaethom hefyd ddiwygio ein *Cod ymddygiad ar gyfer pleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr, canfaswyr ac ymgyrchwyr ar ymdrin â cheisiadau am bleidlais bost a phapurau pleidleisio drwy'r post yng Nghymru a Lloegr* i sicrhau ei fod yn gyfredol ar gyfer pob un o'r digwyddiadau etholiadol (gan gynnwys refferenda) yn 2011, ac rydym yn dal i fonitro'r cydymffurfiad â'r Cod. Cafodd y canllaw poced a roddwyd i swyddogion yr heddlu ei gynnwys fel atodiad i'r Cod. Yn dilyn cais gan y pleidiau gwleidyddol ar ôl etholiadau 2007, gwnaethom ddarparu canllaw poced ar gyfer y Cod ymddygiad pleidlais drwy'r post y byddai modd i weithredwyr pleidiau ac ymgyrchwyr gyfeirio ato ar unwaith yn ystod cyfnodau ymgyrchu.

4.26 Ar ôl eu creu ym mhob heddlu erbyn etholiadau 2007, roedd swyddogion penodedig, neu Bwyntiau Cyswllt Unigol unwaith eto yn gweithredu fel

[32] www.electoralcommission.org.uk/news-and-media/news-releases/electoral-commission-media-centre/news-releases-donations/Electoral-Commission-publishes-details-of-party-spending-at-National-Assembly-for-Wales-election-2011

canolbwynt ar gyfer swyddogion yr heddlu a swyddfeydd etholiadol mewn perthynas â chamymddygiad etholiadol a honiadau o droseddau. Roedd Pwyntiau Cyswllt Unigol wedi mynychu seminarau gyda staff etholiadol ar draws Cymru yn ystod gwanwyn 2011 i baratoi ar gyfer digwyddiadau etholiadol 2011, a gwnaethant gyfrannu at ein hadolygiad ar ôl yr etholiad er mwyn mynd â'r gwersi a ddysgwyd rhagddynt.

4.27 Yn yr un modd â 2007, roedd Pwynt Cyswllt Unigol Heddlu De Cymru yn gyfrifol am arwain a chysylltu â heddluoedd eraill yng Nghymru i weithredu fel 'uwch Bwynt Cyswllt Unigol'. Roedd hyn wedi arwain at ddull mwy cydlynol o baratoi ar gyfer yr etholiadau a'r refferenda, ac yn hwyluso'r gwaith o ddosbarthu cyngor a chyfarwyddyd.

4.28 Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu i gasglu data ar nifer yr honiadau o gamymddwyn y caiff yr heddlu wybod amdanynt, er mwyn deall maint a natur y camymddygiad etholiadol mewn etholiadau a refferenda. Caiff data ei gasglu yn lleol gan Swyddogion Pwyntiau Cyswllt Unigol a'i anfon i Ganolfan Gwybodaeth a Chydlynu Genedlaethol yr Heddlu (PNICC). Bydd pob Pwynt Cyswllt Unigol yn dychwelyd gwybodaeth bob mis am unrhyw achosion o gamymddwyn honedig.

4.29 Cofnodwyd saith o achosion yng Nghymru rhwng dechrau mis Ionawr a diwedd mis Gorffennaf 2011. Roedd pob un ohonynt yn ymwneud ag etholiadau'r Cynulliad yn hytrach na'r ddau refferendwm. O'r saith achos hynny, ni chymerodd yr heddlu unrhyw gamau pellach mewn tri ohonynt oherwydd nad oedd unrhyw droseddau etholiadol wedi'u cyflawni. Mewn un achos rhoddodd yr heddlu gyngor anffurfiol i ymgeisydd. Roedd un achos yn destun ymchwiliad adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Roedd y ddau achos arall yn ymwneud ag ymgeiswyr a etholwyd yn Aelodau Cynulliad. Mae Pennod 3 yn cynnwys gwybodaeth am yr achosion hynny a chanlyniad ymchwiliad yr heddlu.

5 Darparu'r etholiad

5.1 Mae'r bennod hon yn rhoi gwybodaeth am y ffordd roedd Swyddogion Canlyniadau a'u staff wedi darparu'r etholiad ac adolygiad o hynny, gan gynnwys cynllunio ar gyfer y cyfrif a gweinyddu hynny. Mae'n nodi'r prif faterion a gododd ac yn rhoi sylwadau arnynt.

5.2 Roedd y ffaith bod yr etholiad wedi cael ei gyfuno â refferendwm y DU ar 5 Mai a'r ffaith bod y digwyddiadau cyfun hyn gwta ddau fis ar ôl refferendwm Cymru ar 3 Mawrth yn golygu cyfnod dwys o gynllunio a pharatoi ar gyfer pawb a oedd yn ymwneud â chynnal digwyddiadau etholiadol yng Nghymru. Er gwaethaf y sialensiau hyn, cafodd digwyddiadau etholiadol 2011 yng Nghymru eu gweinyddu'n dda.

5.3 Roedd amseru'r cyfrif yn destun dadlau. Rydym yn adolygu'r mater hwnnw ym Mhennod 3 ac yn gwneud cynigion ynghylch sut gellid datrys yr anawsterau a gododd.

Deddfwriaeth

5.4 Mae'r rheolau sy'n llywodraethu sut caiff etholiadau eu cynnal mewn is-ddeddfwriaeth[33] ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru sy'n gyfrifol am hynny. Roedd y rheolau yn debyg iawn i'r rheini ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2007, gydag ambell i fân newid i ddatrys rhai materion technegol a oedd wedi codi yn etholiadau 2007. Y newid amlycaf oedd dyluniad y papur pleidleisio rhanbarthol, ac rydym yn trafod hynny ym Mhennod 3. Roedd y ddeddfwriaeth ddiwygio a oedd yn cynnwys y newidiadau wedi cwblhau ei thaith drwy Senedd y DU ym mis Tachwedd 2010.[34]

Cyfuno'r etholiad a'r refferendwm

5.5 Y ffactor a gymhlethodd cynnal etholiad y Cynulliad oedd y ffaith iddo gael ei gyfuno â refferendwm y DU. Roedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth yn darparu ar gyfer refferendwm ar system bleidleisio Senedd y DU - Bil y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau - ar 22 Gorffennaf 2010.

5.6 Roedd y Bil yn cynnwys darpariaethau i gyfuno'r refferendwm ag etholiadau a oedd eisoes wedi cael eu trefnu ar 5 Mai 2011, hynny yw, etholiadau i'r Cynulliadau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, etholiadau lleol mewn rhannau o Loegr ac ar draws Gogledd Iwerddon. Yn Lloegr, roedd rhai etholiadau ar gyfer cynghorau tref a phlwyf yn cael eu cynnal hefyd ynghyd â nifer bach o etholiadau maer lleol. Yn ymarferol, roedd hyn yn

[33] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007
[34] Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2010

golygu y byddai pleidleiswyr ar draws y DU yn llenwi rhwng un a phump papur pleidleisio ar 5 Mai. Byddent yn llenwi tri yng Nghymru.

5.7 Gall digwyddiadau pleidleisio a gynhelir ar yr un dyddiad naill ai gael eu cynnal ar yr un pryd ond fel digwyddiadau ar wahân neu - os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu - mae modd eu cyfuno, er mwyn gallu rhannu'r elfennau hynny sy'n gyffredin rhyngddynt. Mae cyfuno yn symleiddio pethau i bleidleiswyr, er mwyn iddynt gael gwybodaeth gyfun sy'n ymwneud â'r etholiadau a gynhelir ar yr un diwrnod yn hytrach na darnau gwahanol o wybodaeth. Er enghraifft, gall pleidleiswyr gael un cerdyn pleidleisio a fydd yn rhoi gwybodaeth am yr holl etholiadau ar y diwrnod hwnnw, yn hytrach na chardiau ar wahân ar gyfer pob etholiad gwahanol.

5.8 Serch hynny, nid oes unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol sy'n galluogi cyfuno refferendwm a gynhelir dan y rheolau yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ag etholiadau eraill. Adeg cyflwyno Bil y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2010, nid oedd yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth o'r fath.

5.9 Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddasom ddatganiad yn rhoi ein barn ar y cynnig i gyfuno refferendwm y DU ag etholiadau a drefnwyd. Dyma'r hyn roeddem yn ei ddweud:

> Mae'n bwysig bod pleidleiswyr yn gallu cael gafael ar wybodaeth am y dadleuon o blaid ac yn erbyn y dewisiadau sydd ganddynt yn y digwyddiadau pleidleisio gwahanol ar 5 Mai. Mae cynrychiolwyr etholedig a phobl eraill wedi mynegi pryderon petai refferendwm ledled y DU yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod ag etholiadau mewn gwahanol rannau o'r DU y byddai hyn yn effeithio ar y sylw i'r ymgyrchoedd ar gyfer yr etholiadau. Mae'n bwysig bod pleidiau gwleidyddol, y cyfryngau, ymgyrchwyr refferendwm a'r Comisiwn Etholiadol i gyd yn cydnabod y mater hwn ac yn chwarae eu rhan i sicrhau bod pleidleiswyr yn cael lefel briodol o wybodaeth am yr ymgyrchoedd perthnasol ac yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus.
>
> Ond ceir hefyd fanteision i gynnal refferendwm ar yr un diwrnod ag etholiadau a drefnwyd mewn sawl rhan o'r DU i wneud iawn am y pryderon hyn, gan gynnwys rhai arbedion cost cyffredinol ac osgoi gofyn i tua 39 miliwn o etholwyr gymryd rhan mewn etholiad a refferendwm ar ddau achlysur gwahanol.
>
> *Pleidleisio mewn etholiadau gwahanol ar 5 Mai 2011 - Safbwynt y Comisiwn Etholiadol.*
> 22 Gorffennaf 2010

5.10 Roeddem yn cydnabod y risgiau posibl a allai ddigwydd o ganlyniad i gynnal yr etholiadau ar yr un diwrnod, gan gynnwys:

- Gellid drysu pleidleiswyr yn sgil negeseuon ymgyrchoedd gwahanol neu groes ar gyfer y refferendwm ac etholiadau eraill a drefnwyd gan ddrysu pleidleiswyr am eu dewisiadau ar gyfer pob gornest.
- Gallai papurau pleidleisio a systemau pleidleisio gwahanol a ddefnyddir ar y diwrnod pleidleisio arwain at ddryswch a chamgymeriadau gan bleidleiswyr wrth iddynt gofnodi eu dewisiadau yn gywir.
- Gallai cyfrifoldebau sy'n gorgyffwrdd, sy'n gwrthdaro ac sy'n gymhleth ar gyfer cynnal y refferendwm ac etholiadau eraill a drefnwyd arwain at weinyddu etholiadol o ansawdd gwael.
- Os nad yw'r fframwaith cyfreithiol yn darparu ar gyfer cyfuno'r refferendwm ac etholiadau yn ffurfiol, ac yn darparu dim ond ar gyfer cynnal y ddau ddigwyddiad etholiadol ar yr un diwrnod, bydd gweinyddu'r ddau ddigwyddiad yn fwy cymhleth a bydd yr arbedion cost yn cael eu lleihau.
- Gallai gorgyffwrdd rhwng y cyfundrefnau rheoleiddio ar gyfer rhoddion a gwariant ar ymgyrchoedd arwain at ddryswch i ymgyrchwyr a llai o dryloywder.

5.11 Gwnaethom nodi nifer o gamau y dylai Llywodraeth y DU eu cymryd i fynd i'r afael â'r risgiau roeddem wedi'u nodi. Sef:

- Llywodraeth y DU i weithio gyda'r Comisiwn i sicrhau bod y gwaith cynllunio ar gyfer 5 Mai yn ystyried yr effaith wahanol ar yr amrywiaeth o ddigwyddiadau pleidleisio ar draws y DU.
- Roedd yn rhaid i'r rheolau ar sut byddai'r refferendwm yn cael ei gynnal fod yn glir o leiaf chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio, hynny yw erbyn dechrau mis Tachwedd ar gyfer cynnal y refferendwm ar 5 Mai.
- Rhaid gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd priodol i sicrhau bod pleidleiswyr yn deall proses y refferendwm a'r etholiad.
- Rhaid darparu digon o gyllid i gynnal y refferendwm a'r etholiadau a drefnwyd gyda'i gilydd.
- Rhaid i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y refferendwm wneud darpariaeth iddo gael ei gyfuno'n ffurfiol â'r etholiadau a drefnwyd.

5.12 Yn gynnar ym mis Tachwedd 2010, chwe mis cyn y diwrnod pleidleisio, cyhoeddasom asesiad o gynnydd y ddeddfwriaeth a'r camau i liniaru'r risgiau roeddem wedi'u nodi ym mis Gorffennaf 2010 er mwyn gallu cynnal etholiadau mis Mai 2011 yn llwyddiannus. Daethom i'r casgliad ar yr adeg honno ein bod yn fodlon y bu digon o gynnydd i alluogi'r Swyddogion Cyfrif a Chanlyniadau lleol i gynnal y pleidleisiau yn dda ac y byddai pleidleiswyr yn gallu cymryd rhan ynddynt. Gellid cyfuno ar y sail honno.

5.13 Gwnaethom fonitro hynt Bil y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau yn agos a darparu sesiynau briffio ar gamau allweddol. Beth bynnag, roedd Bil y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau wedi cwblhau ei daith drwy'r Senedd a daeth yn gyfraith gwta dri mis cyn y diwrnod pleidleisio.

Rheolau cyfuno

5.14 Roedd yn rhaid ysgrifennu rheolau newydd a phenodol ar gyfer sut mae'n rhaid cynnal yr etholiadau a'r refferendwm ar yr un pryd ym mhob rhan o'r DU, gan ystyried y rheolau gwahanol a fyddai fel arfer yn berthnasol i bob un o'r digwyddiadau pleidleisio hynny ac unrhyw wahaniaethau rhyngddynt. Roedd yn rhaid i'r rheolau hefyd bennu pa rannau o'r digwyddiadau pleidleisio a fyddai'n cael eu cyfuno a phwy fyddai'n bennaf gyfrifol amdanynt, Swyddogion Canlyniadau ynteu Swyddogion Cyfrif y refferendwm.

5.15 Roedd y rheolau cyfuno yn galluogi Swyddogion Cyfrif lleol y refferendwm i gyflawni nifer o'r swyddogaethau a oedd yn gyffredin i'r digwyddiadau pleidleisio y byddai Swyddog Canlyniadau etholiad yn gyfrifol amdanynt fel arfer, megis darparu gorsafoedd pleidleisio, penodi clercod pleidleisio a chyhoeddi cardiau pleidleisio cyfun. Roedd Deddf y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau hefyd yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y rhan fwyaf o'r swyddogaethau craidd a oedd yn ymwneud â chynnal digwyddiadau pleidleisio ar yr un pryd yn ôl disgresiwn y Swyddog Cyfrif.

5.16 Roedd Swyddogion Canlyniadau yn dal yn gyfrifol am yr agweddau nad oeddent wedi cael eu cyfuno o'r etholiad. Gan fwyaf roedd hyn yn golygu enwebiadau ymgeiswyr a chyfrif y pleidleisiau yn yr etholiadau.

5.17 Mae ein adroddiad ar refferendwm y DU, a gyhoeddir ochr yn ochr â'r adroddiad hwn, yn cynnwys rhagor o fanylion am y rheolau ar gyfer cynnal y refferendwm a chymhlethdodau cyfuno rheolau etholiad a refferendwm. Mae'n cynnwys argymhellion ar sut y dylai Llywodraeth y DU fynd i'r afael â'r anawsterau a gafwyd yn 2010-11, o ganlyniad i orfod llunio rheolau'r refferendwm a'r cyfuno mewn cyfnod byr.

Canlyniad y cyfuno i bleidleiswyr

5.18 Beth bynnag, fel roedd ein canfyddiadau ar brofiad pleidleiswyr eisoes wedi'i ddangos, dywedodd y mwyafrif helaeth o bleidleiswyr na chawsant unrhyw anawsterau yn llenwi'r tri phapur pleidleisio. Roedd hon yn flaenoriaeth allweddol i'r Comisiwn a Phrif Swyddog Cyfrif y refferendwm ar gyfer yr holl ddigwyddiadau pleidleisio a gynhaliwyd ar 5 Mai.

5.19 Cafodd barn y pleidleiswyr ei hatgyfnerthu gan nifer y papurau pleidleisio y bu'n rhaid eu gwrthod, sef dim mwy na'r arfer mewn etholiadau eraill yng Nghymru - 5%. Serch hynny, roedd honno'n gyfradd uwch na'r gyfradd o bapurau pleidleisio a wrthodwyd yn y refferendwm annibynnol a gynhaliwyd yng Nghymru ym mis Mawrth 2011, a oedd yn gofyn i bleidleiswyr lenwi un papur pleidleisio yn unig. 3% oedd y ffigur hwnnw sef y nifer isaf o bapurau pleidleisio a wrthodwyd yng Nghymru dros y degawd diwethaf.

Effaith y cyfuno ar weinyddu etholiadau a refferendwm 5 Mai

5.20 Nid oedd dim rheolau ar gyfuno ar waith cyn galw refferendwm y DU ac nid oedd llawer o amser ar gael i lunio deddfwriaeth fanwl a fyddai'n cynnwys y rheolau hynny. Nes i Fil y System Bleidleisio Seneddol ac Etholaethau ddod yn ddeddf drwy Senedd y DU, roedd rhywfaint o ansicrwydd gan y rheini yr oedd gofyn iddynt ddarparu'r etholiadau a'r refferendwm cyfun ar 5 Mai.

5.21 Yn benodol ac yn ddigon dealladwy, roedd Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif yn nerfus ynghylch llunio cynlluniau terfynol ac ymrwymo adnoddau a hwythau ddim yn gwybod yn siŵr a fyddai'r cyllid roedd Llywodraeth y DU wedi awgrymu ei bod yn bwriadu ei ddarparu ar gael mewn gwirionedd. Roedd hefyd yn golygu yng Nghymru, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU lle'r oedd etholiadau yn cael eu cynnal, bod angen i'r Swyddogion Canlyniadau gynllunio ar gyfer digwyddiad cyfun a bod yn rhaid iddynt gael trefniadau wrth gefn ar waith pe na bai'r refferendwm hwnnw'n cael ei gynnal ar 5 Mai. Roedd yr ansicrwydd hwn ynghylch y cyfuno wedi effeithio ar allu Swyddogion Canlyniadau, er enghraifft, i wneud penderfyniadau terfynol ynghylch argraffu hysbysiadau a ffurflenni pleidleiswyr, gosod gorsafoedd pleidleisio, maint lleoliadau'r cyfrif, a nifer y staff dros dro y byddai eu hangen ar gyfer y diwrnod pleidleisio a'r cyfrif.

5.22 Yn ein harolwg o Swyddogion Canlyniadau, dywedodd nifer mawr o awdurdodau fod y ffaith bod y cadarnhad deddfwriaethol hwyr ynghylch y refferendwm a natur cyfun y digwyddiadau pleidleisio yn golygu bod trefnu a chwblhau tasgau yn anodd. Roedd hefyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar argraffu a chynhyrchu pecynnau pleidleisio drwy'r post.

5.23 Cafodd yr amgylchiadau hyn eu gwaethygu yng Nghymru oherwydd y ffaith bod y digwyddiadau cyfun gwta ddau fis ar ôl y refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad a gynhaliwyd ar 3 Mawrth. Roedd hyn yn golygu cyfnod dwys o gynllunio a pharatoi i bawb dan sylw. Roedd swmp y gwaith a oedd i'w gwblhau a blinder staff etholiadol allweddol yn ffactor roedd yn rhaid i Swyddogion Canlyniadau ei ystyried wrth fonitro'r risgiau i gynnal etholiadau mis Mai yn llwyddiannus. Er gwaethaf y sialensiau hyn, cafodd holl ddigwyddiadau etholiadol 2011 eu gweinyddu'n dda yng Nghymru.

Rheoli'r etholiad

5.24 Mae defnyddio dull wedi'i gydlynu ar gyfer cynllunio etholiadau wedi dod yn arfer yng Nghymru drwy gydweithio rhwng Swyddogion Canlyniadau, staff etholiadol, y Comisiwn a swyddogion y llywodraeth pan fo hynny'n briodol. Mae'r dull hwn wedi cryfhau o un flwyddyn i'r llall, ac yn enwedig dros y tair blynedd diwethaf pan mae Swyddogion Canlyniadau wedi ceisio mabwysiadu dull ar y cyd. Yn 2011, cododd fater penodol ynghylch amseru cyfrif pleidleisiau'r etholiad ac rydym yn trafod hyn ym Mhennod 3.

5.25 Roedd gan refferendwm y DU a oedd yn cael ei gyfuno â'r etholiad strwythur rheoli gwahanol i'r hyn a geir ar gyfer etholiadau. Rydym yn adolygu'r strwythur rheoli hwnnw'n fanylach yn ein chwaer adroddiad ar refferendwm y DU. Cadeirydd y Comisiwn, Jenny Watson, oedd y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm ac roedd ganddi bŵer cyfreithiol i gyfarwyddo 11 o Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a Swyddogion Cyfrif lleol. Un o'r 11 Swyddog Cyfrif Rhanbarthol hynny oedd Swyddog Cyfrif Rhanbarthol Cymru.

5.26 Roedd y Comisiwn wedi sefydlu Grŵp Llywio Etholiadau a Refferenda i ddod â grŵp o gynrychiolwyr ynghyd o'r deddfwrfeydd perthnasol ac adrannau Llywodraeth y DU, gan gynnwys Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Llywodraeth Cymru, Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol a'r Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol. Ei ddiben oedd darparu goruchwyliaeth strategol genedlaethol ar gyfer datblygu deddfwriaeth a chynllunio, rheoli a darparu'r refferendwm a'r etholiadau cyfun gan sicrhau bod unrhyw risgiau roeddem wedi'u hadnabod o ran cynnal etholiadau 5 Mai yn ddidrafferth yn cael eu rheoli'n iawn.

5.27 Cafodd y Gweithgor Etholiadau, Refferenda a Chofrestru ei sefydlu i helpu'r Prif Swyddog Cyfrif a'r Comisiwn Etholiadol i gyflawni eu swyddogaethau a'u dyletswyddau perthnasol ar gyfer digwyddiadau pleidleisio Mai 2011. Roedd y grŵp hwn yn parhau'r grŵp a sefydlwyd yn wreiddiol ar gyfer etholiad Senedd Ewrop yn 2009 ac roedd wedi parhau â'i waith ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010.

5.28 Amcanion y Gweithgor Etholiadau, Refferenda a Chofrestru oedd rhoi cyngor a chefnogaeth i'r Prif Swyddog Cyfrif a'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer datblygu a darparu cyfarwyddiadau, cyfarwyddyd ac adnoddau etholiad a refferendwm, a sicrhau bod anghenion staff cofrestru etholiadol ac etholiadau ym Mhrydain Fawr yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu'r cyfarwyddiadau, y cyfarwyddyd a'r adnoddau. Roedd bwriad hefyd i'r grŵp ymateb i unrhyw faterion a nodwyd gan y Grŵp Llywio Etholiadau a Refferenda a'r rhanbarthau etholiadol yn ystod y broses gynllunio ar gyfer digwyddiadau etholiadol gwanwyn 2011, ac yn gyffredinol i alluogi'r unigolion a'r grwpiau a oedd yn ymwneud â darparu etholiadau Gwanwyn 2011 i gyfathrebu'n effeithiol.

5.29 Roedd aelodaeth y Gweithgor Etholiadau, Refferenda a Chofrestru yn cynnwys cynrychiolydd pob Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ym Mhrydain Fawr a Swyddog Canlyniadau Llundain Fwyaf, a chynrychiolydd o Swyddfa'r Cabinet, y Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol a Chymdeithas Aseswyr yr Alban. Cyfarfu'n fisol rhwng mis Awst a mis Chwefror 2011, a chafodd cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

5.30 Roedd y strwythur rheoli wedi golygu cydlynu a chysondeb ar draws y DU mewn perthynas â'r refferendwm, ac yn sgil hynny roedd cysondeb ag etholiadau'r Cynulliad. Bryn Parry-Jones oedd Swyddog Cyfrif Rhanbarthol y refferendwm yng Nghymru, Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol Ewropeaidd Cymru a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Penfro, ac roedd hefyd yn Ddirprwy Brif Swyddog Cyfrif Cymru ar gyfer refferendwm Cymru ar 3 Mawrth. Roedd Mr

Parry-Jones hefyd yn Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth etholiadol Canolbarth a Gorllewin Cymru yn etholiadau'r Cynulliad.

5.31 Gan weithio gyda'r Comisiwn, roedd y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol wedi arwain y Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cyfrif i fabwysiadu dull a oedd wedi'i gydlynu'n gryf o ran cynllunio a darparu'r tri digwyddiad etholiadol yng Nghymru yn ystod 2011 – refferendwm Cymru ym mis Mawrth, etholiadau'r Cynulliad a refferendwm y DU. Roedd pob Swyddog Canlyniadau yng Nghymru wedi bod mewn cyfres o seminarau cynllunio ar gyfer y pleidleisio ym mis Mawrth a mis Mai a/neu wedi cael trafodaethau unigol gyda'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a'r Comisiwn.

5.32 Roedd hyn yn golygu bod modd i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a'r Comisiwn lunio asesiadau manwl ynghylch pa mor barod oedd pawb ledled Cymru ar gyfer digwyddiadau pleidleisio mis Mai ac i gamu i mewn i ddarparu cefnogaeth a chyfarwyddyd ychwanegol yn amserol os oedd angen hynny.

Ein deunyddiau a'n hadnoddau

5.33 Roedd y Prif Swyddog Cyfrif wedi rhoi cyfarwyddiadau i Swyddogion Cyfrif am gynnal y refferendwm gyda'r nod canolog o gael dull gweithredu cyson wrth ddarparu'r refferendwm a chyfri'r pleidleisiau. Roedd y cyfarwyddiadau wedi'u bwriadu i'w defnyddio gydag agweddau cyfun yr etholiadau a'r refferendwm. Cafodd Swyddogion Canlyniadau gyfarwyddyd i ddehongli'r cyfarwyddiadau fel cyfarwyddyd gan y Comisiwn mewn perthynas â swyddogaethau nad oeddent wedi cael eu cyfuno.

5.34 Yn ogystal â'r cyfarwyddiadau ar gyfer agweddau cyfun y refferendwm, roeddem hefyd wedi cynhyrchu cyfarwyddyd i Swyddogion Canlyniadau ei ddefnyddio yn y broses enwebu ymgeiswyr etholiadol ac adnoddau cysylltiedig megis ffurflenni enwebu ymgeiswyr.

5.35 Roeddem wedi blaenoriaethu hygyrchedd i'r holl bleidleiswyr yn y cyfarwyddyd a'r adnoddau roeddem wedi'u rhoi i'r Swyddogion Canlyniadau, ac roeddem wedi gwneud hynny yn y cyfarwyddiadau i'r Swyddogion Cyfrif yn refferendwm cyfun y DU. Er enghraifft, roedd ein cyfarwyddiadau ar gyfer y digwyddiadau pleidleisio cyfun yn datgan nifer uchaf y pleidleiswyr a bennir i orsafoedd pleidleisio a chymhareb y staff i'r pleidleiswyr y byddai'n rhaid eu defnyddio mewn gorsafoedd pleidleisio. Nod hyn yn rhannol oedd osgoi unrhyw giwiau mewn gorsafoedd pleidleisio, fel y gwelwyd mewn rhai ardaloedd yn Lloegr yn ystod etholiad cyffredinol Senedd y DU yn 2010.

5.36 Roeddem wedi darparu adnoddau i helpu gyda chynllun a gosod gorsafoedd pleidleisio ac roeddem wedi rhoi cyfarwyddyd ar hygyrchedd a llif pleidleiswyr o'r adeg pan fyddant yn dod i mewn i'r adeg y byddant yn gadael. Roeddem wedi darparu adnoddau templed i hyfforddi staff pleidleisio a oedd yn trafod y materion hyn ac yn rhoi cyfarwyddyd ar helpu pleidleiswyr ag anableddau. Yn unol hefyd â'n cyfarwyddiadau ar gyfer yr etholiad a'r refferendwm cyfun roedd yn rhaid cael nifer sylfaenol o arolygwyr gorsafoedd

pleidleisio i fonitro gorsafoedd pleidleisio ym mhob ardal drwy gydol y diwrnod pleidleisio i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio wedi cael eu gosod yn iawn, yn cynnwys yr holl gyfarpar angenrheidiol a'u bod yn hygyrch i'r holl bleidleiswyr.

5.37 Roeddem hefyd wedi cyhoeddi set gynhwysfawr o ddeunyddiau templed i'w defnyddio'n lleol, gan gynnwys cardiau pleidleisio, deunyddiau pleidleisio drwy'r post a hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio a llawlyfrau i staff gorsafoedd pleidleisio. Roedd y llawlyfr ar gyfer gorsafoedd pleidleisio yn cynnwys rhestr wirio ar hygyrchedd (cafodd hon ei chynhyrchu ar ôl ymgynghori â grwpiau anabledd) a chyngor ar helpu pleidleiswyr sydd ag anableddau.

Y gwersi a ddysgwyd am y deunyddiau a'r adnoddau roeddem wedi'u darparu

5.38 Yn ein harolwg ar ôl yr etholiad, cawsom adborth ar wasanaeth cefnogaeth a chyfarwyddyd y Comisiwn i Swyddogion Canlyniadau a'u staff ac ar ein deunyddiau cyfarwyddyd ac adnoddau a gyhoeddwyd gennym. Cafwyd sylwadau cadarnhaol am y gefnogaeth uniongyrchol a ddarparwyd gan y Comisiwn megis:

> Mae Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru yn gefnogol iawn a bydd bob tro'n dod yn ôl atoch gyda chyngor os na fydd yn gallu eich helpu y tro cyntaf.
>
> Swyddog Canlyniadau, Cymru

5.39 Serch hynny, drwy'r adborth daeth yn amlwg bod rhai yn teimlo bod y Comisiwn wedi micro-reoli refferendwm y DU, a effeithiodd wedyn ar elfennau cyfun yr etholiad. Er bod Swyddogion Canlyniadau o'r farn bod cynlluniau prosiect, templedi a gwybodaeth am gynnal sesiynau cyfrif yr etholiad a'r refferendwm yn ddefnyddiol, cawsom adborth hefyd bod cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif yn rhy fanwl, rhagnodol ac yn rhy niferus, a olygodd nad oedd y derbynwyr wedi'u darllen i gyd.

5.40 Roedd llawer o'r adborth negyddol yn ymwneud â materion cyflwyno yn hytrach na materion ynghylch cynnwys ein deunyddiau. Er enghraifft, dywedodd rhai gweinyddwyr etholiadol eu bod yn teimlo ei bod yn anodd dod o hyd i'w ffordd o amgylch gwefan y Comisiwn a'u bod wedi cael problemau yn llwytho'r ffurflenni a'r cyfarwyddyd i lawr a byddai wedi bod yn well ganddynt weld y cyfarwyddyd mewn un gyfrol wedi'i hargraffu. Nid dyma'r farn gyffredinol; roedd y rheini a oedd yn defnyddio ein gwefan yn amlach yn gyfarwydd â lle oedd yr holl adnoddau a chyfarwyddyd yn cael eu cadw. Rhoddodd Swyddogion Canlyniadau a'u staff adborth negyddol am dderbyn deunyddiau diweddaru gan y Comisiwn dros yr e-bost, gan eu bod yn teimlo ei bod yn hawdd colli gwybodaeth berthnasol a oedd wedi'i chynnwys yn y diweddariadau e-bost.

5.41 Rydym wedi ystyried yr adborth a gawsom wrth gynllunio ein cyfarwyddyd a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau 2012 a sut rydym yn cyflwyno'r wybodaeth honno ar ein gwefan.

Monitro perfformiad

5.42 Roedd y Prif Swyddog Cyfrif hefyd wedi monitro perfformiad er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddarparu'r refferendwm. Mewn etholiadau, pan nad oes gan y Comisiwn swyddogaeth na phŵer cyfarwyddo gweithredol, rydym wedi adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau yn erbyn safonau cyhoeddedig ar ôl y digwyddiad. Yn dilyn y dull roeddem wedi'i fabwysiadu yn refferendwm mis Mawrth yng Nghymru, yn refferendwm y DU gwnaethom fabwysiadu dull mwy rhagweithiol a monitro perfformiad Swyddogion Cyfrif a Swyddogion Canlyniadau lleol wrth i'r digwyddiadau etholiadol cyfun fynd rhagddynt. Roedd hyn yn ein galluogi, gyda phob un o'r Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol, i gamu i mewn petai amgylchiadau yn mynnu hynny a rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth yn ôl yr angen.

5.43 Roedd ein strategaeth monitro yn cynnwys y pedair prif elfen ganlynol:

Monitro cynllunio a threfnu: sicrhau bod cynlluniau ac adnoddau priodol ar waith fel sylfaen ar gyfer darparu'r digwyddiadau pleidleisio cyfun ar 5 Mai 2011 drwy fynnu bod Swyddogion Cyfrif yn darparu copïau o'u cynlluniau a'u cofrestri risg ynghyd â datganiad yn dangos bod ganddynt ddigon o adnoddau i'w galluogi i ddarparu'r digwyddiadau pleidleisio cyfun yn effeithiol ac yn unol â'r ddeddfwriaeth a chyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Cyfrif.

Gwirio cydymffurfiad: monitro'n gyffredinol bod y cyfarwyddiadau'n cael eu dilyn gan bob Swyddog Cyfrif drwy gwblhau rhestri gwirio ar adegau y penderfynwyd arnynt ymlaen llaw yn y broses etholiadol. Roedd yr agwedd hon yn berthnasol i'r refferendwm ac i agweddau cyfun yr etholiad.

Monitro ar sail risg: monitro perfformiad yn fanwl ar ddull sy'n seiliedig ar risg drwy gynnal ymweliadau monitro a drwy graffu ar wybodaeth a thystiolaeth. Roedd hyn yn berthnasol i'r refferendwm ac agweddau cyfun yr etholiad.

Eithriadau: pan oedd Swyddog Cyfrif yn credu bod ganddo reswm dilys dros beidio â chydymffurfio â chyfarwyddyd, roedd ganddynt hawl i roi gwybod i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol a gofyn am 'eithriad' i'w galluogi i gyflawni proses neu weithdrefn benodol mewn ffordd wahanol i honno a bennwyd yn y cyfarwyddyd. Roedd hyn yn berthnasol i'r refferendwm ac agweddau cyfun yr etholiad.

5.44 Gwnaethom ddadansoddi holl gynlluniau'r prosiect a'r cofrestri risg i wirio bod Swyddogion Canlyniadau/Swyddogion Cyfrif wedi rhoi sylw priodol i'r tasgau allweddol a amlinellwyd yn y cyfarwyddiadau.

5.45 Ar ben hynny gofynnwyd iddynt ddychwelyd y rhestri gwirio bob wythnos yn cadarnhau bod cyfarwyddiadau allweddol yn cael eu dilyn. Roedd y gwaith monitro hwn yn ein galluogi, gan weithio gyda Swyddog Cyfrif Rhanbarthol

Cymru, i sicrhau bod y tasgau allweddol wedi cael eu cyflawni mewn da bryd ac i ddelio ag unrhyw broblemau – er enghraifft, sicrhau bod cardiau pleidleisio a phleidleisiau drwy'r post yn cael eu hanfon ar yr adeg iawn ac nad oedd dim problemau sylweddol a allai effeithio ar bleidleiswyr.

5.46 Roedd y gwaith monitro hwn wedi ein galluogi ni, gyda'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol, i gamu i mewn yn gyflym mewn nifer o achosion penodol i fynd i'r afael ag anawsterau lleol a darparu cefnogaeth a chyfarwyddyd gweithredol yn ôl yr angen. Roedd y dull gweithredu yn golygu bod problemau yn cael eu hosgoi a risgiau'n cael eu lliniaru a bod modd delio â nhw, gan gyfrannu at weinyddu'r etholiad yn effeithiol ledled Cymru. Cawsom adborth cadarnhaol gan y Swyddogion Canlyniadau dan sylw pan roeddem yn camu i mewn ac yn darparu cefnogaeth o ganlyniad i'r gwaith monitro.

5.47 Cawsom adborth gan rai aelodau o staff y gwasanaethau etholiadol megis eu bod yn teimlo bod y 'monitro amser real' yn faich yn ystod cyfnodau prysur iawn yn y cyfnod cyn 5 Mai, er enghraifft adeg anfon pleidleisiau drwy'r post. Cawsom rywfaint o adborth hefyd bod rhywfaint o'r wybodaeth yr oedd y rhestri gwirio eisoes yn gofyn amdani wedi cael ei chynnwys mewn cynlluniau prosiect a chofrestri risg, sy'n golygu bod rhywfaint o wybodaeth yn cael ei hailadrodd.

5.48 Byddwn yn ystyried yr holl adborth a gawsom, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o'n dull gweithredu ar gyfer rheoli refferendwm mis Mawrth yng Nghymru a'r digwyddiadau pleidleisio cyfun ym mis Mai ar gyfer rheoli digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol. Yn benodol, byddwn yn diwygio ein cynllun safonau perfformiad i Swyddogion Canlyniadau fonitro eu perfformiad mewn amser real. Byddwn yn ymgynghori'n helaeth ynghylch fframwaith safonau perfformiad newydd yn ystod hydref 2011 gyda'r safonau newydd ar waith ar gyfer etholiadau a gynhelir ym mis Mai 2012.

Costau'r etholiad

5.49 Llywodraeth Cymru sy'n talu am yr etholiad, sy'n golygu costau Swyddogion Canlyniadau lleol i ddarparu'r etholiad. Roedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau Swyddogion Canlyniadau) 2011 yn cynnwys y symiau uchaf roedd modd i Swyddogion Canlyniadau eu hadennill ar gyfer etholiadau etholaethau a rhanbarthol a oedd yn cael eu hymladd a'u cynnal ar yr un diwrnod â'r refferendwm ar y system bleidleisio Seneddol. £4,628,549 oedd y swm uchaf yr oedd modd ei adennill ar gyfer yr holl etholaethau yng Nghymru ac ar gyfer y rhanbarth roedd y ffigur yn £84,300, gan roi cyfanswm o £4,712,849.

5.50 Nid yw'r union gostau a gafodd y Swyddogion Canlyniadau mewn awdurdodau lleol i gynnal yr etholiadau yn hysbys eto. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfarwyddyd ynghylch sut i gyfrifo ar gyfer yr etholiadau a gosododd y dyddiad cau o 5 Ionawr 2012 er mwyn cyflwyno cyfrifon etholiad Swyddogion Canlyniadau.

5.51 Roedd Llywodraeth Cymru wedi talu costau'r Post Brenhinol (£3,385,292) am ddanfon 16,604,020 darn o ohebiaeth etholiadol am ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol.

Atodiad A
Methodoleg yr Ymchwil

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio gwybodaeth o nifer o brosiectau ymchwil a gynhaliwyd gennym ni neu gan gontractwyr yn gweithio ar ein rhan. Dyma fanylion y methodolegau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob un o'r prosiectau hyn.

Arolwg barn y cyhoedd

Roedd ICM wedi cyfweld dros y ffôn â sampl cynrychioladol o 1,001 o bobl yng Nghymru a oedd yn pleidleisio ac nad oeddent yn pleidleisio rhwng 7 a 23 Mai 2011. Ar draws y DU, cafodd 3,961 o bobl a oedd yn pleidleisio ac nad oeddent yn pleidleisio eu cyfweld dros yr un cyfnod. Dyma ddadansoddiad o'r sampl ar gyfer ardaloedd eraill: Lloegr 1,458, yr Alban 1,001 a Gogledd Iwerddon 501.

Cafodd y data ei bwysoli yn ôl y proffil poblogaeth genedlaethol hysbys yng Nghymru ac ym mhob ardal yn y DU. Mae gan y canfyddiadau arwyddocâd ystadegol os yw lefel yr hyder yn 95% neu'n uwch. Mae adroddiad technegol ar gael ar gais.

Mae'r cymariaethau rhwng y digwyddiadau pleidleisio gwahanol a gynhaliwyd yn 2011 a'r etholiadau a gynhaliwyd mewn blynyddoedd blaenorol yn ddangosol a dylid eu trin yn ofalus.

Dilyn trywydd ymgyrchoedd

Roedd Gfk NOP wedi cyfweld â 191 o oedolion yng Nghymru (1,409 o oedolion ledled y DU) yn y don ymlaen llaw (rhwng 4 a 27 Mawrth), 103 o oedolion yng Nghymru (418 ledled y DU) yn y don yn y canol (rhwng 2 a 4 Mai), a 193 o oedolion yng Nghymru (1,392 o oedolion ledled y DU) yn y don ar ôl (rhwng 6 a 29 Mai). Y gynulleidfa darged ar gyfer yr ymchwil oedd oedolion dros 18 oed a oedd yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau a refferendwm y DU ym mis Mai 2011.

Cafodd pob cyfweliad ei gynnal wyneb yn wyneb gartref, a chafodd y sampl ei lunio drwy ddefnyddio samplo lleoliad ar hap o Gymru a ledled y DU. Cafodd cyfweliadau y tonnau ymlaen llaw ac ar ôl eu cynnal drwy ddefnyddio Random Location Omnibus NOP GfK, a chafodd oddeutu 200 o gyfweliadau ad hoc eu cyflawni yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cafodd cyfweliadau'r don ganol eu cynnal fel astudiaeth ad hoc. Cafodd yr holl gyfweliadau eu samplo drwy ddefnyddio'r dulliau lleoliad ar hap a'u cynnal yr un ffordd er mwyn gallu eu cyfuno a'u cymharu.

Yng Nghymru roedd yr holl ddeunyddiau cyfweld ar gael yn ddwyieithog ac roedd croeso i'r ymatebwyr gwblhau'r cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Roedd oddeutu 1% ym mhob don wedi cwblhau'r cyfweliad yn Gymraeg.

Data etholiadol

Roedd yr Athro Colin Rallings a'r Athro Michael Thrasher yn y Ganolfan Etholiadau, Prifysgol Plymouth, wedi casglu a choladu'r data ar ran y Comisiwn gan weithio gyda Scott Orford ym Mhrifysgol Caerdydd. Roedd hyn yn cynnwys data a oedd yn ymwneud â chofrestru etholiadol, y nifer a bleidleisiodd, pleidleisio absennol a phapurau pleidleisio a wrthodwyd. Cafodd data ei gasglu gan Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif yng Nghymru a ledled Prydain Fawr.

Dadansoddi'r cyfryngau

Roedd y Ganolfan Etholiadau, Cyfryngau a Phleidiau ym Mhrifysgol Caerwysg wedi dal a dadansoddi cynnwys newyddion ar draws 41 o wasanaethau ledled y DU am gyfnod o 53 diwrnod yn y cyfnod hyd at y diwrnod pleidleisio. Roedd y gwasanaethau newyddion a gafodd eu monitro yng Nghymru yn cynnwys newyddion teledu a phapurau newydd gan gynnwys y Western Mail a'r South Wales Evening Post. Mae crynodeb dechnegol ar gael ar gais.

Arolwg o ymgeiswyr etholiadol ac asiantau

Gwnaethom anfon arolwg dwyieithog at bob ymgeisydd etholaeth yn ystod yr wythnos ar ôl y diwrnod pleidleisio. Roedd y pecyn yn cynnwys arolwg ychwanegol i'r asiant ei lenwi os oedd yn dymuno gwneud hynny. Cafodd arolygon hefyd eu hanfon at asiantau pob rhestr plaid ranbarthol, ac i'r asiantau ar gyfer ymgeiswyr unigol a oedd yn sefyll ar y rhestri hyn. Mae rhagor o wybodaeth dechnegol ar gael ar gais.

Adborth gan y pleidiau gwleidyddol

Cawsom adborth gan swyddogion o'r pedair plaid wleidyddol a gynrychiolir yn y Cynulliad drwy ein panel o bleidiau gwleidyddol Cymru. Roeddem hefyd wedi cwrdd a gohebu ag Aelodau Cynulliad unigol ar gais.

Adborth gan Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif

Cyhoeddodd y Comisiwn ffurflen adborth ansoddol ddewisol i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cyfrif yng Nghymru ac ar draws Prydain Fawr yn gofyn am eu sylwadau ar eu profiad o weinyddu digwyddiadau pleidleisio 5 Mai. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar oddeutu 100 o ffurflenni.

Roeddem hefyd wedi cynnal seminar ar ôl yr etholiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol yng Nghymru.

Atodiad B
Amseroedd cyfrif pleidleisiau etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Etholaeth neu ranbarth etholiadol	Amser gorffen dilysu papurau pleidleisio etholiad y Cynulliad a refferendwm y DU	Amser datgan canlyniad yr etholiad	Cyfanswm yr amser i ddilysu a chyfrif yr etholiad
Blaenau Gwent	01:02	02:10	4 awr 10 munud
Islwyn	02:04	03:04	5 awr 04 munud
Merthyr Tudful	00:51	03:13	5 awr 13 munud
Llanelli	02:02	03:15	5 awr 15 munud
Cwm Cynon	02:00	03:25	5 awr 25 munud
Sir Drefaldwyn	02:22	03:29	5 awr 29 munud
Dwyrain Casnewydd	02:17	03:37	5 awr 37 munud
Aberafan	01:30	03:41	5 awr 41 munud
Pontypridd	02:02	03:46	5 awr 46 munud
Castell-nedd	02:00	03:48	5 awr 48 munud
Gorllewin Casnewydd	02:17	03:48	5 awr 48 munud
Ceredigion*	05:42	03:52	5 awr 52 munud
Dwyrain Abertawe	01:27	04:00	6 awr 0 munud
Brycheiniog a Sir Faesyfed	03:20	04:12	6 awr 12 munud
Ogwr	02:47	04:17	6 awr 17 munud
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr	03:47	04:29	6 awr 29 munud
Caerffili	03:47	04:35	6 awr 35 munud
Dwyfor Meirionnydd	03:20	04:36	6 awr 36 munud
Rhondda	03:15	04:41	6 awr 41 munud
Mynwy	03:28	04:41	6 awr 41 munud
Gorllewin Abertawe	02:00	04:41	6 awr 41 munud

Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro	03:47	04:42	6 awr 42 munud
Pen-y-bont ar Ogwr	03:15	04:52	6 awr 52 munud
Tor-faen	02:22	05:01	7 awr 01 munud
Preseli Sir Benfro	03:47	05:05	7 awr 05 munud
Bro Morgannwg	03:58	05:10	7 awr 10 munud
Gŵyr	03:14	05:12	7 awr 12 munud
De Caerdydd a Phenarth	03:10	05:52	7 awr 52 munud
Gorllewin Caerdydd	03:47	06:14	8 awr 14 munud
Rhanbarth De Orllewin Cymru		06:23	8 awr 23 munud
Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru		07:03	9 awr 03 munud
Canol Caerdydd	04:27	07:18	9 awr 18 munud
Gogledd Caerdydd	04:56	07:18	9 awr 18 munud
Rhanbarth Dwyrain De Cymru		07:40	9 awr 40 munud
Rhanbarth Canol De Cymru		09:18	11 awr 18 munud
Dyffryn Clwyd	01:13	12:06	6 awr 19 munud
Arfon	00:51	12:17	6 awr 08 munud
Gorllewin Clwyd*	03:47	12:17	9 awr 04 munud
Aberconwy*	03:34	12:52	9 awr 26 munud
Ynys Môn	02:12	13:01	8 awr 13 munud
Alyn a Glannau Dyfrdwy	02:10	13:15	8 awr 25 munud
Wrecsam*	04:10	13:20	10 awr 30 munud
Delyn	02:10	13:30	8 awr 40 munud
De Clwyd	02:17	13:31	8 awr 48 munud
Rhanbarth Gogledd Cymru		13:48	4 awr 48 munud

* Mae'r amseroedd ar gyfer cwblhau'r gwaith dilysu yn dod o wybodaeth a dderbyniwyd yn electronig yn System Casglu Canlyniadau'r refferendwm. Serch hynny, mewn rhai achosion bu oedi wrth drosglwyddo canlyniadau'n electronig, sy'n golygu efallai fod y gwaith dilysu wedi'i gwblhau'n gynt na'r amseroedd a ddangosir yma.